





Bargen Ddinesig
BAE ABERTAWE
SWANSEA BAY
City Deal



# Adroddiad Blynyddol y Portffolio

2023/24



@SBCityDeal

BDBA@sirgar.gov.uk

bargenddinesigbaeabertawe.cymru






# Crynodeb Gweithredol

**£1.28bn**

| | |
|---|---|
| **£241m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£395.6m** | Sector Cyhoeddus |
| **£641.7m** | Sector Preifat |



Bydd y portffolio yn darparu:

**£1.8-2.4bn**
Gwerth Gros Ychwanegol

**9,000+**
Swyddi a Grewyd

Mae'r prosiectau a'r rhaglenni o fewn Portffolio'r Fargen Ddinesig yn cyd-fynd â thair thema:

## Cyflymu'r Economi

Darparu'r lle, y sgiliau a'r cysylltiadau i yrru'r economi ranbarthol y ei blaen er mwyn cynnig cyfleoedd newydd i'n busnesau a'n cymunedau gael ffynnu.

**£300.6m** Buddsoddiad

Gwerth Gros ychwanegol o **£1.08bn**

**1,708** o Swyddi Newydd

## Gwyddor bywyd a llesiant

Darparu datblygiadau a fydd yn cyfuno cyfleusterau arloesi, ymchwil a dysgu arloesol â busnesau newydd, ac ym meysydd gwyddorau bywyd, iechyd, llesiant a chwaraeon.

**£342.3m** Buddsoddiad

Gwerth Gros ychwanegol o **£617m**

**2,973** o Swyddi Newydd

## Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar

Rhoi'r rhanbarth ar flaen y gad o ran arloesi ym maes ynni a gweithgynhyrchu, fel rhan o'r ymgyrch tuag at economi carbon isel, a chryfhau'r sylfaen weithgynhyrchu bresennol.

**£635.4m** Buddsoddiad

Gwerth Gros ychwanegol o **£687m**

**5,005** o Swyddi Newydd


Croeso i Adroddiad Blynyddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe (BDdBA) 2023-24. Mae llawer o gynnydd yn dal i gael ei wneud ar draws y rhanbarth i gyflawni ein Portffolio uchelgeisiol, a adlewyrchir drwy gydol yr adroddiad. Manylir ar gynnydd drwy wybodaeth allweddol, gweithgarwch, cyflawniadau, a thrwy ddarnau ffocws.

Yr uchelgais yw sicrhau manteision allweddol i'r rhanbarth dros gyfnod o 15 mlynedd, gan gynnwys:

- Creu dros **9,000** o swyddi mewn meysydd sy'n cynnwys ynni, gweithgynhyrchu, digidol, iechyd a llesiant, ymchwil a datblygu, addysg, hamdden a thwristiaeth.
- Cyfrannu **£1.8-2.4 billion** o effaith economaidd.
- Uwchsgilio **14,000** o bobl drwy **2,200** o gyfleoedd hyfforddi a thros **3,000** o brentisiaethau newydd.

Mae'r Fargen Ddinesig yn rhoi cyfle unigryw i dde-orllewin Cymru drwy fuddsoddiad Portffolio gwerth £1.3 biliwn ar draws naw o brif raglenni a phrosiectau, drwy holl siroedd Caerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe.

Bydd cyflawni'r uchelgeisiau hyn yn helpu i drawsnewid de-orllewin Cymru yn ardal o gyfleoedd, lle gall pobl fyw a gweithio, a lle gall busnesau ffynnu drwy greu swyddi â chyflogau da, sgiliau newydd ac amgylchedd busnes o'r radd flaenaf.




"Rydym wedi gweld blwyddyn arall eto o gynnydd sylweddol ar draws y Portffolio, gan groesawu cwmnïau newydd i dde-orllewin Cymru, adeiladu cyfleusterau newydd, cyflogi prentisiaid, creu swyddi a thyfu ein heconomi ranbarthol. Mae llawer o'n prosiectau yn aeddfedu ac yn cyflawni'n well na'r disgwyl, ac mae'r cydweithio rhwng ein holl bartneriaid yn cryfhau wrth inni gyrraedd cerrig milltir pwysig. Mae mentrau cyflenwol o fewn y rhanbarth, gan gynnwys amryw o geisiadau llwyddiannus i'r Gronfa Ffyniant Bro a chais y Porthladd Rhydd Celtaidd hefyd yn mynd rhagddynt, ac mae'r rheiny hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y Fargen Ddinesig. Rwy'n edrych ymlaen yn eiddgar at y 12 mis nesaf wrth i ragor o brosiectau ddwyn ffrwyth."

**Y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe a Chadeirydd Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe**

Prif randdeiliaid Bargen Ddinesig Bae Abertawe yw:

Cyngor Abertawe Swansea Council · Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council · Neath Port Talbot County Borough / Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot · Cyngor Sir Penfro / Pembrokeshire County Council · UK Government / Llywodraeth y DU · Llywodraeth Cymru / Welsh Government · Swansea University / Prifysgol Abertawe · Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant / University of Wales Trinity Saint David · GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board · GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe / Swansea Bay University Health Board

# Buddion

Mae'r portffolio unwaith eto wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod 2023/24 tuag at ei dargedau budd wrth gyflawni'r prosiectau ynddo. Disgwylir y bydd y cynnydd hwn yn parhau i gyflymu yn y blynyddoedd nesaf wrth i ragor o brosiectau gychwyn eu cam cyflawni a gweithredol. Dyma rai o'r prif gyflawniadau hyd yma:

- Cyfanswm o **£354m** wedi'i fuddsoddi hyd yma
- **£125m** o fuddsoddiad yn 2023/24
- **£68m** o fuddsoddiad wedi'i sicrhau gan y Sector Preifat hyd yma
- O leiaf **600+** o swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl) wedi'u creu*
- Creu neu barhau â **160 CALl** o gyfleoedd prentisiaeth
- **13,464** o wythnosau o hyfforddiant cysylltiedig ag adeiladu ar draws yr wythnosau hyfforddiant Portffolio wedi'u darparu ar draws gweithgarwch adeiladu Portffolio hyd yma, gydag o leiaf **4,264** o wythnosau wedi'u darparu yn 2023/24
- **75,701m$^2$** o arwynebedd llawr gorffenedig ar draws y Portffolio
- Rhaglen Sgiliau a Thalent wedi darparu **22,215** o Sgiliau Ychwanegol a **42** o fframweithiau cwrs newydd hyd yma
- **£31.7m** cyllid sector preifat wedi'i ysgogi drwy'r rhaglen Seilwaith Digidol 2022/23
- **308** o gartrefi Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer wedi'u darparu gan drosoli **£48.6m** o fuddsoddiad, yn ychwanegol at **£17.4m** o fuddsoddiad o'r sector cyhoeddus a phreifat
- **250+** o gontractau wedi'u dyfarnu i gwmnïau yng Nghymru
- **3 of 36** o brosiectau wedi'u cwblhau gyda chyfanswm o **£123m** wedi'i fuddsoddi
- **19 of 36** prosiectau yn cael eu cyflawni, gan ddarparu cyfanswm o **£438m** o fuddsoddiad ar ôl iddynt gael eu cwblhau
- **14 of 36** o brosiectau wedi'u cymeradwyo ac yn gweithio drwy baratoadau cyn cychwyn. Ar ôl iddynt gael eu cwblhau, bydd y prosiectau hyn yn darparu'r **£721m** sy'n weddill o fuddsoddiad a ragwelwyd ar gyfer BDdBA
- Mae contractau adeiladu gwerth oddeutu **£141m** yn yr arfaeth, gan gynnwys caffaeliadau o bwys ar gyfer prosiectau Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer, Seilwaith Digidol a Champysau.

*Mae swyddi pellach wedi cael eu creu, ac fe'u cadarnheir o fewn oedіad amser o 12-24 mis ar ôl cwblhau

> "Rydym ar y trywydd iawn i greu newid mawr yn rhanbarthol drwy gyflawni portffolio BDdBA. Hyd yma, mae dros £354m wedi'i fuddsoddi er mwyn cefnogi economi de-orllewin Cymru. Mae rhagor o seilwaith allweddol wedi dod i'r amlwg ar draws y rhanbarth dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys Pentre Awel, Seilwaith Doc Penfro, 71-72 Ffordd y Brenin a'r Matrics Arloesi. Mae llawer mwy o ddatblygiadau yn yr arfaeth, ac fe'u cyflawnir dros y 2-3 blynedd nesaf.
>
> Y peth mwyaf cyffrous am gyflawni'r portffolio yw'r rhwydweithiau a'r cydweithrediadau a ddaw i'r rhanbarth yn sgil y mentrau hyn, sy'n cefnogi twf sectorau a busnesau allweddol. Ymhen amser, bydd y gweithgarwch hwn yn creu cyfleoedd cyflogaeth i'n gweithlu presennol ac i genedlaethau'r dyfodol mewn sectorau sy'n cynnwys iechyd a llesiant, ynni, digidol a gweithgynhyrchu.
>
> Wrth i weithrediadau prosiectau wedi'u cwblhau fagu gwreiddiau, gan gynnwys Yr Egin, Arena Abertawe a Chanolfan Dechnoleg y Bae, byddwn yn edrych ar eu heffaith drwy werthusiadau effaith economaidd. Ynghyd â chyflawni'r tri phrosiect BDdBA rhanbarthol, Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer, Seilwaith Digidol a Sgiliau a Thalentau, bydd y Portffolio yn rhoi de-orllewin Cymru ar y map fel lle y mae pobl eisiau buddsoddi, gweithio, dysgu a byw ynddo."

**Wendy Walters, Prif Weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin ac Uwch-berchennog Cyfrifol BDdBA**



# Sgiliau a Thalentau

**Cyflymu'r Economi**

| | |
|---|---|
| **£30m** | Buddsoddiad |
| **£10m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£16m** | Sector Cyhoeddus |
| **£4m** | Sector Preifat |



Gan ganolbwyntio ar sectorau diwydiant uchel eu twf yn y sectorau digidol, adeiladu, ynni, gweithgynhyrchu clyfar ac iechyd a llesiant, bydd y rhaglen yn darparu 2,200 o gyfleoedd sgiliau a datblygu ychwanegol, 14,000 o unigolion â sgiliau uwch a 3,000 o brentisiaethau newydd - a fydd yn cefnogi busnesau drwy ganiatáu iddynt dyfu a diogelu at y dyfodol drwy ddatblygu gweithlu talentog o fewn y rhanbarth.

Drwy weithio ochr yn ochr â phartneriaid o'r sector preifat, addysg uwch ac addysg bellach, ysgolion a'r trydydd sector, mae tîm y rhaglen yn nodi o bryd i'w gilydd fylchau yn y ddarpariaeth bresennol ac yn pennu'r newidiadau sydd eu hangen i ddatblygu cyrsiau a fframweithiau newydd i lenwi'r bylchau hyn o ran sgiliau. Mae prosiectau peilot yn cael eu datblygu a'u lleoli sy'n cyd-fynd ag anghenion diwydiant a themâu allweddol y Fargen Ddinesig.

## Ffocws Ar...

### Rhagori ar Dargedau

Er mwyn sicrhau llwyddiant y rhaglen, cynhaliwyd gweithgareddau allweddol â disgyblion ysgol a staff i hybu sgiliau ychwanegol a chreu cwrs newydd. Dangosir hyn yn y ffaith bod y raglen wedi rhagori ar ei thargedau ar gyfer 'sgiliau ychwanegol' a 'fframweithiau cwrs newydd' dros y 12 mis diwethaf.

Mae 22,215 o unigolion wedi elwa ar sgiliau ychwanegol yn erbyn targed o 2,220.

I gyd-fynd â hyn, mae cyrsiau newydd wedi cael eu datblygu, ar draws ystod o lefelau a sectorau. Mae'r PDSR yn cydweithio â darparwyr hyfforddiant a phartneriaid o'r diwydiant i greu prosiectau peilot mewn sectorau lle ceir galw uchel am weithwyr yn y dyfodol, a lle ceir diffyg hyfforddiant ar hyn o bryd i fodloni'r angen am sgiliau yn y rhanbarth yn y dyfodol. Hyd yma, mae 42 o fframweithiau cwrs newydd wedi cael eu creu yn erbyn targed o 20, mewn sectorau sy'n cynnwys Digidol, Adeiladwaith Gwyrdd a gweithgynhyrchu.

"Ar dirlun economaidd sy'n newid yn gyflym, mae'n hanfodol ein bod yn cynnig cyfleoedd o ansawdd uchel i'n pobl ifanc allu ennill y sgiliau a'r profiadau sydd eu hangen arnynt ar gyfer swyddi heddiw a chyfleoedd yfory. Drwy gysylltu busnesau a diwydiant â darparwyr hyfforddiant, mae'r rhaglen Sgiliau a Thalentau yn sicrhau bod dyfodol ffyniannus, gyda swyddi â chyflog da, ar gael yn ne-orllewin Cymru."

**Rebecca Evans, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio Llywodraeth Cymru**

## Gweithgarwch allweddol ar gyfer 24/25:

- Cefnogi Bwrdd Trawsnewid Dur TATA i uwchsgilio ac ailsgilio gweithwyr i'w cadw o fewn y rhanbarth.
- Adolygu'r baromedr sgiliau a'r data sgiliau i werthuso effaith a thargedu ymyriadau ar gyfer sgiliau angenrheidiol.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid i sicrhau bod anghenion cyflogwyr yn llywio unrhyw ddatblygiadau o ran sgiliau.
- Ymgysylltu ag ysgolion i godi ymwybyddiaeth ynghylch y Fargen Ddinesig a'r hyn y mae'n ei olygu i bobl ifanc.



## Mantrision hyd yma

**2,200** o Sgiliau Ychwanegol

**14,000** o Gyfleoedd Uwchsgilio

**3,000** o Gyfleoedd Prentisiaeth

**20** o Fframweithiau Cwrs Newydd

Datblygu **2+** Ganolfan Ragoriaeth

## Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol:

- 10 prosiect peilot sgiliau pellach wedi'u cymeradwyo gan fwrdd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol. Gan godi cyfanswm y prosiectau peilot cymeradwy i 21 ers lansio'r cynllun. Roedd ffocws cryf ar sectorau â blaenoriaeth, ac ynni a pheirianneg yn benodol. Roedd gweithgarwch peilot arall hefyd yn cynnwys uwchsgilio'r gweithlu presennol yn y sector hydrogen.
- Rhagori ar y targedau ar gyfer 'Sgiliau Ychwanegol', gyda 22,215 wedi'u creu hyd yma yn erbyn targed o 2,200. Hefyd wedi rhagori ar y targed ar gyfer 'Fframweithiau Cwrs Newydd', gyda 42 wedi'u creu yn erbyn targed o 20.
- Baromedr Sgiliau wedi'i adolygu a'i ddiweddaru a dadansoddiad o fylchau sgiliau sector wedi'u cynnal ac adroddiadau wedi'u llunio.
- Datblygu gwefan www.rlp.org.uk – ac arni wybodaeth am y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau a rhaglen Sgiliau a Thalentau BDdBA, adran ar y newyddion diweddaraf, a chrynodeb o brosiectau peilot wedi'u cymeradwyo.
- Peilot Teacher Encounters wedi'i gwblhau ac adroddiad gwerthuso wedi'i lunio ar gyfer Llywodraeth Cymru. Roedd hyn er mwyn cefnogi staff addysgu yn Ysgol Uwchradd Dwr y Felin yng Nghastell-nedd drwy weithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru, gan eu galluogi i drosglwyddo eu pynciau i fodloni gofynion y diwydiant perthnasol.
- Presenoldeb mewn nosweithiau rhieni mewn dwy ysgol fesul awdurdod lleol i godi ymwybyddiaeth ynghylch BDdBA, y Rhaglen Sgiliau a Thalentau ac opsiynau gyrfa lleol sydd ar ddod. Cafodd yr ymgysylltiad â rhieni ac athrawon ei groesawu'n fawr ac mae hyn wedi cynnig cyfleoedd pellach i gydweithio.
- Deunydd marchnata wedi'i gynhyrchu gan ddangos mapiau ffordd ar gyfer llwybrau gyrfa, yn amlygu cyfleoedd am hyfforddiant ôl-16 sydd ar gael mewn colegau a phrifysgolion ar draws y rhanbarth.
- Peilot Profiad Gwaith wedi'i gynllunio ar gyfer Ysgol Dyffryn Aman, a fydd yn cynnwys profiad o'r diwydiant yn y byd go iawn, a gwaith prosiect ystafell ddosbarth. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn y flwyddyn academaidd nesaf.
- Cynhaliwyd gweithdy gydag arweinwyr prosiectau peilot a rheolwyr prosiect y Fargen Ddinesig i rannu arfer gorau a gwybodaeth am y gweithgareddau a gynhaliwyd. Bu'r gweithdy'n llwyddiannus, a bwriedir ei ailadrodd.

# Prosiectau peilot Sgiliau a Thalentau

Dros y 12 mis diwethaf mae'r rhaglen Sgiliau a Thalentau wedi cymeradwyo 10 prosiect peilot newydd a fydd yn paratoi pobl ifanc am swyddi sydd ar ddod ar draws y rhanbarth.

**Buddsoddiad hyd yma**

**£1,229,985** o Arian Cyfatebol y Sector Cyhoeddus

**£1,362,810** o Arian Cyfatebol y Sector Preifat

Buddsoddiad Preifat o **£1,060,800** mewn Prentisiaethau

**500** o unigolion â sgiliau uwch wedi ennill cymhwyster

## Prosiect Hyfforddiant Mewn Technolegau Realiti Rhithwir / Realiti Estynedig

Hyrwyddo'r defnydd o realiti rhithwir a realiti estynedig, a'r manteision posibl yn gysylltiedig â hynny i gymuned busnes y rhanbarth. Gan weithio'n agos gyda diwydiant, bydd y prosiect hwn yn dylunio canolfan hyfforddi realiti rhithwir i ddarparu llwyfan er mwyn cyflwyno profiad dysgu cyffrous i'r rhanbarth drwy amgylcheddau dysgu cyfunol, ar-lein neu wyneb yn wyneb. Bydd hyfforddiant hefyd ar gael i'r rhai sy'n gadael yr ysgol, y di-waith, yn ogystal â myfyrwyr a rhai sy'n newid gyrfa.

**100** o unigolion â sgiliau uwch wedi ennill cymhwyster

## Dysgu Trochi ar gyfer y Diwydiant Hydrogen yng Nghymru

Datblygu a chyflwyno cyrsiau hyfforddi arloesol ar gyfer diwydiant hydrogen y rhanbarth sy'n tyfu'n gyflym, gan ddefnyddio technegau ffilmio trochi 360-gradd arloesol. Mae'n mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau yn niwydiant hydrogen y rhanbarth a bydd yn helpu i ddatblygu gweithlu medrus sy'n gallu cystadlu'n well ar y llwyfan fyd-eang.

**450** o unigolion â sgiliau uwch wedi ennill cymhwyster

## Adeiladu Sero Net

Yn darparu ystod o gyrsiau arloesol i ddysgwyr am dechnegau adeiladu arbed ynni, a gyflwynir gan arbenigwyr o'r diwydiant, gan gynnwys cyfuniad o addysg gwaith ymarferol a damcaniaethol ar lefelau amrywiol. Yn seiliedig ar ddyluniad 'ffabrig yn gyntaf', bydd y prosiect yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y diwydiant, mewn addysg bellach ac addysg uwch, ysgolion a'r trydydd sector i sefydlu'r angen am hyfforddiant a llunio cwricwlwm adeiladu Sero Net unedig ar draws yr holl sbectrwm o Lefel 1 i Lefel 7.

**800** o unigolion yn elwa ar fwy o ddysgu

## Y Dreigiau Ifanc - Futurescape

Er mwyn rhoi cyflwyniad i ddisgyblion i'r diwydiant adeiladu, drwy ddefnyddio cyfuniad o realiti rhithwir a phrofiad ymarferol. Gan ddefnyddio sefyllfaoedd realistig yn y gweithle, bydd y prosiect yn helpu i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd allweddol fel datrys problemau a meddwl yn greadigol, yn ogystal â galluogi defnyddio sgiliau mathemateg, gwyddoniaeth a menter.

**12** o unigolion â sgiliau uwch wedi ennill cymhwyster

## Cwrs Drôn diwydiannol uwch

Yn darparu hyfforddiant achrededig uwch er mwyn i beilotiaid dronau allu cynnal hediadau arolygu sy'n ofynnol er mwyn archwilio ac adnabod peiriannau ac offer yn rheolaidd mewn lleoliadau diwydiannol.

**50** o unigolion â sgiliau uwch wedi ennill cymhwyster

## Sgiliau AGOR – Iechyd a Llesiant Chwaraeon

Yn mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau yn sector Chwaraeon, Iechyd a Llesiant sy'n tyfu'n gyflym. Bydd yn manteisio ar y cyfoeth o gyfleoedd sy'n codi o amgylch Campysau'r Fargen Ddinesig a datblygiad Pentre Awel. Gan weithio'n agos â busnesau, mae'r prosiect cyffrous hwn yn cynnig amgylchedd cydweithredol ar gyfer dysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb, gan gynnal gyrsiau a digwyddiadau arloesol ar gyfer ystod o sgiliau sector-benodol a arweinir gan y farchnad.

**40** o unigolion â sgiliau uwch wedi ennill cymhwyster

## Ynni Adnewyddadwy ac Adeiladu Cynaliadwy (SPARC)

Yn annog menywod i ganlyn gyrfaoedd mewn diwydiannau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ledled Sir Benfro, gan gynnwys pŵer cynaliadwy, ynni adnewyddadwy, peirianneg ac adeiladu. Gan weithio'n agos gydag ysgolion a diwydiant, bydd y prosiect yn gweithio i rymuso ac ysbrydoli menywod ifanc i ystyried a chanlyn gyrfaoedd yn y diwydiannau hyn, a chreu gweithlu mwy amrywiol a chynhwysol i'r dyfodol.

**80** o unigolion â sgiliau uwch wedi ennill cymhwyster

## Addas ar gyfer Ynni Adnewyddadwy Môr Cymru

Er mwyn helpu i baratoi cadwyn gyflenwi'r rhanbarth am y sector ynni adnewyddadwy ar y môr. Bydd yn rhoi cefnogaeth i ystod eang o fusnesau'r rhanbarth ddatblygu i mewn i'r sector, yn lleol ac yn fyd-eang, gan gynnig cyngor wedi'i deilwra a chyfle i dyfu rhwydwaith o gontractau cadwyn gyflenwi. Cyn gynted ag y bydd cwmni yn ennill statws Addas ar gyfer Ynni Adnewyddadwy Môr, bydd yn cael ei hyrwyddo ymhlith cysylltiadau'r diwydiant a allai fod yn gwsmeriaid iddo yn y dyfodol.

**294** o unigolion â sgiliau uwch wedi ennill cymhwyster

## Sgiliau'r Dyfodol ar gyfer y Tir a'r Môr

Yn ymdrin yn uniongyrchol â'r angen am sgiliau yn y sector morol sy'n tyfu o fewn y rhanbarth. Rhaglen 2 gyn-gadetiaeth 2 flynedd mewn astudiaethau morwrol i fyfyrwyr, yn cyflwyno cyrsiau mewn cymwysterau morwrol penodol ac ymweliadau â'r diwydiant. Ar ôl cwblhau'r cwrs, bydd y dysgwyr yn cael cynnig mynediad uniongyrchol i gadetiaeth swyddogion wedi'i ariannu'n llawn. Bydd y prosiect hefyd yn datblygu llwybrau mewn ysgolion i ennyn diddordeb dysgwyr yn agweddau STEM ar ynni adnewyddadwy morol, gan gynnwys technolegau ynni adnewyddadwy a phrosesau datblygu prosiect ar gyfer ynni'r tonnau, y llanw, ynni'r gwynt ar y tir, solar ac ynni'r gwynt ar y môr.

**450** unigolion â sgiliau uwch yn ennill cymhwyster

## Hwb Trawsnewid Ynni

Yn y datblygiad cyntaf o'i fath yn y DU, bydd hyn yn golygu sefydlu cyfleuster gweithredwyr ystafell reoli yng Ngholeg Sir Benfro. Bydd y cyfleuster yn cynnwys ystafell a all hyfforddi grwpiau o 24 o ddysgwyr, gan gynnwys myfyrwyr a'r gweithlu presennol, ac yn efelychiad manwl gywir o'r amgylchedd a welir mewn ffatrïoedd ynni mawr yn y rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys cyfleusterau sy'n bodoli eisoes, fel purfeydd olew, ffatrïoedd LNG, gorsafoedd ynni a chyfleusterau bwyd a diod, yn ogystal â ffatrïoedd yn y dyfodol fel ffatrïoedd gwynt a hydrogen sy'n arnofio ar y môr.

# Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer

Cyngor Abertawe Swansea Council | Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council | Neath Port Talbot County Borough / Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Cyngor Sir Penfro Pembrokeshire County Council

**Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar**

| | |
|---|---|
| **£505.5m** | Buddsoddiad |
| **£15m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£114.6m** | Sector Cyhoeddus |
| **£375.9m** | Sector Preifat |

Bydd y prosiect hwn yn hwyluso'r broses o fabwysiadu dyluniadau ynni-effeithlon a thechnolegau ynni adnewyddadwy mewn cartrefi ledled y rhanbarth - gan helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, torri allyriadau carbon a chefnogi twf economaidd rhanbarthol.

Gan gefnogi datblygiad cynlluniau adeiladu newydd ac ôl-osod cartrefi presennol, bydd yn galluogi rhaglen gynhwysfawr i fonitro a chasglu data. Mae cymorth ariannol ar gael i ymgorffori technolegau ynni adnewyddadwy mewn cartrefi ac i ddatblygu cadwynau cyflenwi technoleg ynni adnewyddadwy ar draws y rhanbarth.



HAPS Trawsnewid Cartrefi Cymraeg Transforming Welsh Homes

## Gweithgarwch allweddol ar gyfer 24/25:

- Lansio Cronfa Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi.
- Creu cynnwys ar gyfer rhannu cynnydd.
- Parhau i chwilio am gyfleoedd i drosoli cyllid ychwanegol sy'n cefnogi amcanion y prosiect.
- Cefnogi cyfleoedd i fusnesau gynyddu sgiliau o fewn eu gweithlu i osod a chynnal y technolegau sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

## Mantrision hyd yma

**£251m**
Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

**1,804**
Swyddi a Grewyd

**10,300** Cartrefi Newydd a Phresennol wedi'u Gosod gyda Thechnolegau Adnewyddadwy

**10,417+KWh**
Arbed Ynni

**19,000+**
Tunelli o ostyngiadau $CO^2$ y flwyddyn

## Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol:

- Lansio'r Gronfa Cymhellion Ariannol (CCA) lle cymeradwywyd 16 o geisiadau gan ddefnyddio £3.7m o Gyllid y Fargen Ddinesig a throsoli £37.6m o gyllid ychwanegol o'r sector cyhoeddus a phreifat. Mae hyn yn helpu 8 o sefydliadau i fwrw ymlaen â'u cynlluniau datgarboneiddio tai gyda chefnogaeth Ysgol Bensaernïaeth Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd.
- Cwblhaodd ymgynghorydd cadwynau cyflenwi a chaffael o Abertawe, OPUS BS, ymarfer i fapio cadwynau cyflenwi, gan nodi cyflenwyr presennol a chyfleoedd posibl yn y dyfodol ar draws y rhanbarth.
- Parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cwmpas y CCA yn cyd-fynd â'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ac ECO 4 Flex i gynyddu'r cyfleoedd cyllido.
- Cynllun Cyfathrebu a Marchnata wedi'i greu gan Urban Foundry.
- Cyfarfodydd cynllunio Monitro a Gwerthuso Technegol wedi'u cynnal gydag Ysgol Bensaernïaeth Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd i sicrhau cydweithio â gwaith presennol a chyfleoedd cyfredol.
- Cynllun Cymhorthdal yn cael ei ddatblygu i ddyfarnu Cymorth Ariannol yn unol â rheoliadau rheoli cymhorthdal.
- £75k o gyllid wedi'i sicrhau gan CAM (Y Cynllun Ardystio Microgynhyrchu) fel bo modd gwneud gwaith sylfaenol gydag ysgolion a cholegau.
- Sicrhau £250k o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i greu Tŷ Enghreifftiol ar gyfer Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer.
- Digwyddiadau cydgysylltiedig i gefnogi gweithgareddau a sgiliau'r gadwyn gyflenwi ar draws y rhanbarth:
  - Digwyddiad SO Modular wedi'i gynnal, gan amlygu Dulliau Adeiladu Modern, drwy ddefnyddio Coed Cymreig.
  - Lansio Batri Cartref Duracell i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynnyrch a chynyddu nifer y gosodwyr achrededig.
- Wedi cefnogi ceisiadau:
  - Ymchwil ac Arloesi'r DU, rhan o Lywodraeth DU, i sicrhau £5m ar gyfer Cyfrif Cyflymu Effaith Seiliedig ar Le er mwyn Trawsnewid i Adeiladau Sero Net o dan arweiniad Prifysgol Abertawe.
  - Innovate UK, i sicrhau cyllid o £7.5m gan Launchpad. Mae hon yn bartneriaeth rhwng Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Diwydiant Sero Net Cymru ar gyfer prosiectau arloesi a arweinir gan fusnes, a chefnogaeth ategol.
  - Cyngor y Celfyddydau a'r Dyniaethau i sicrhau £4.6m ar gyfer prosiect cydweithredol Trawsnewid Tai a Chartrefi ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y prosiect hwn yn cael ei gynnal tan fis Medi 2025 ar draws 50+ o aelodau'r consortiwm, gan gynnwys Prifysgolion Caerdydd, Caerfaddon, Bryste a Chaerwysg, Cyngor Abertawe a So Modular. Ei nod yw creu ecosystem ddylunio aml-bartner, trawsddisgyblaethol newydd i drawsnewid tai ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol gan ddefnyddio deunyddiau sy'n seiliedig ar ddeunydd biolegol ac anechdynnol, ynghyd â chyflenwad a chyfleusterau storio ynni adnewyddadwy.

## Ffocws Ar...

### Lansio Batri Duracell

Cefnogodd y prosiect ddigwyddiad llwyddiannus a gynhaliwyd yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Sir Gaerfyrddin i lansio cyfleusterau storio batri Duracell mewn cartrefi. Roedd dros 85 yn bresennol yno, a bu'r digwyddiad yn fodd i dros 15 o gwmnïau gosod droi'n 'bartneriaid platinwm' gyda Duracell. Mae'r batri Duracell cyntaf eisoes wedi'i osod gan gwmni o fewn y rhanbarth, a pho fwyaf o osodwyr batris fydd ar gael, y mwyaf cystadleuol fydd y prisiau.

> "Cawsom wahoddiad i ddigwyddiad Lansio ac yn dilyn hwn, bu modd inni ddod yn osodwyr platinwm i Duracell. Rydym wedi gweld diddordeb mawr yn y batri, sy'n llawer mwy fforddiadwy na brandiau eraill. Cwblhawyd ein gosodiad cyntaf ychydig fisoedd yn ôl, ac rydym bellach wedi derbyn archebion am lawer mwy o'r batris ar draws y rhanbarth. Mae'n wych gweld sut mae y prosiect yn sicrhau y bydd datblygiad cadwynau cyflenwi yn cael effaith gadarnhaol ar rai sy'n byw mewn tlodi tanwydd."

**Gareth Bevan, Solar Centric**

# Seilwaith Digidol

Cyflymu'r Economi

| | |
|---|---|
| **£69.3m** | Buddsoddiad |
| **£25m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£18.3m** | Sector Cyhoeddus |
| **£26.1m** | Sector Preifat |

Darparu cysylltiadau ffeibr llawn â safleoedd sector cyhoeddus strategol, gan fynd i'r afael ag ardaloedd gwledig lle ceir cysylltiadau gwael, a chefnogi ehangu 4G a 5G er mwyn sbarduno pobl i fabwysiadu technolegau sy'n dod i'r amlwg.

Mae tair ffrwd waith y rhaglen - Gwledig, Lleoedd Cysylltiedig a Rhwydwaith Di-wifr y Genhedlaeth Nesaf - oll yn cael eu cyflawni ac yn parhau i gefnogi dyheadau'r rhaglen:

- Band eang gwell i bawb... heb adael neb ar ôl
- Rhanbarth Clyfar sy'n barod ac yn gallu arloesi a mabwysiadu technoleg sy'n dod i'r amlwg.
- Tirwedd ddigidol gynhwysol sy'n diwallu anghenion pawb.

Mae'r tîm cyflawni'n cynnwys Hyrwyddwyr Digidol o fewn pob Awdurdod Lleol i roi cymorth i drigolion ar draws y rhanbarth a bod yn bwynt canolog i gyflenwyr a'r llywodraeth.



## Gweithgarwch allweddol ar gyfer 24/25:

- Cynnal digwyddiad Arloesi Digidol a Thechnoleg 5G - Llunio ein dyfodol. Bydd y digwyddiad yn tynnu sylw at bynciau allweddol sy'n ymwneud â chysylltedd digidol yn ogystal â datblygiadau arloesol sy'n digwydd ar draws y rhanbarth.
- Diffinio ardal ymyrraeth a hyfywedd y prosiect Mewnlenwi Band Eang Gwell. Cynnal ymarfer caffael.
- Cwmpasu Ffeibr Tywyll yng Nghaerfyrddin ac yn nwyrain y rhanbarth. Cynnal ymarfer caffael.
- Mae'r gwaith adeiladu'n cael ei gyflawni ar gyfer Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus sy'n cefnogi gwaith i drawsnewid darpariaeth gwasanaeth y sector cyhoeddus drwy uwchraddio amryw o asedau'r sector cyhoeddus ar draws y rhanbarth i ffeibr llawn.
- Pob un o'r pedwar Awdurdod Lleol i fabwysiadu'r Gwersi a Ddysgwyd gan Abertawe i sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio ar draws y rhanbarth.
- Parhau i gefnogi'r gwaith seilwaith symudol drwy'r rhaglen Rhwydwaith Gwledig Cyffredin.
- Parhau â'r Gronfa Fuddsoddi 5G i gefnogi datblygu a defnyddio 5G a thechnoleg ddi-wifr ddatblygedig
- Cefnogi cyflawniad Prosiect Gigabit gwerth £5bn ar raddfa leol.

## Mantrision hyd yma

**£318.8m** Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

**10+** Prosiect Band Eang Cymunedol

**200+** o Safleoedd Sector Cyhoeddus wedi'u huwchraddio i ffeibr llawn

IOT **250+** o byrth Rhyngrwyd Pethau wedi'u defnyddio

## Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol:

- Mae'r rhaglen Adeiladu Seilwaith Ffeibr Llawn (ASFfLl) wedi cysylltu 68 o asedau'r sector cyhoeddus â 401 o fannau preswyl/busnes ychwanegol, sy'n elwa ar gysylltiad ffeibr llawn yn sgil hynny.
- Wedi cysylltu 35 o safleoedd sector cyhoeddus strategol allweddol â Ffeibr Tywyll pwrpasol. Dyfarnwyd y contract i VMO2.
- Parhau i weithio ar y prosiect Mewnlenwi Band Eang Gwell, gan gynnwys dadansoddiad manwl anghenion cysylltedd ar gyfer pob eiddo, gan groesgyfeirio amryw o setiau data i ddiffinio'r ardal ymyrraeth.
- Lansio'r Gronfa Arloesi 5G i gefnogi'r defnydd o rwydweithiau 5G / di-wifr datblygedig er mwyn annog mabwysiadu, masnacheiddio ac ehangu egin-dechnoleg yn gyflym ar draws sectorau allweddol. Dyfarnwyd £1.55m i brosiect Campysau Prifysgol Abertawe i ariannu'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi eu defnydd o dechnoleg 5G i hyrwyddo datblygiadau pellach ym maes gwyddorau bywyd a chwaraeon.
- Cytundeb Mynediad Agored wedi'i lofnodi rhwng Cyngor Abertawe a Freshwave i ddefnyddio technoleg celloedd bach i wella gallu symudol yn ardaloedd prysur y ddinas. Buddsoddiad wedi'i gadarnhau gan VMO2.
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen Rhwydwaith Gwledig Cyffredin gwerth £1bn, a arweinir gan Lywodraeth y DU a Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol, i wella derbyniad symudol 4G yn ardaloedd mwyaf heriol y DU. Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro oedd prif fuddiolwyr y rhaglen hon. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yn gwella cysylltedd 4G yn sylweddol i'r rhan fwyaf o gymunedau gwledig o fewn y rhanbarth.
- Mae'r Rhaglen wedi ariannu dau Hyrwyddwr Digidol ym mhob Awdurdod Lleol; dyma'r pwyntiau cyswllt cyntaf ar gyfer preswylwyr a chyflenwyr.
- Cynllun Marchnata a Chyfathrebu wedi'i gymeradwyo ac yn ei le, yn amlinellu gweithgareddau a cherrig milltir allweddol.
- Cwblhau Adolygiad Gateway, gan dderbyn sgôr Gwyrdd/Ambr.
- Cynhaliodd Farrpoint asesiad effaith annibynnol ar gyfer 2022–23 a amcangyfrifodd £36.7m o fewnfuddsoddiad gan y sector cyhoeddus a phreifat er mwyn wella cysylltedd ar draws y rhanbarth.

## Ffocws ar...

### Animeiddiadau Addysgiadol

Mae cyfres o animeiddiadau addysgiadol wedi cael eu creu a'u cynhyrchu i hysbysu'r cyhoedd ynghylch manteision gwella cysylltedd, pa gymorth ariannol sydd ar gael i'w helpu i wella'u band eang, ynghyd â gwybodaeth am newidiadau technolegol yn eu hardal. Mae'r gyfres bellach yn cael ei defnyddio gan Swyddogion Ymgysylltu Band Eang pob awdurdod lleol, yn rhan o'u gwaith allgymorth cymunedol.

Mae hyn yn rhan o'r gwaith ehangach i chwalu rhwystrau, sy'n digwydd ar draws ffrydiau gwaith y rhaglen, er mwyn canolbwyntio ar osod Seilwaith Digidol, i sicrhau bod prosesau effeithlon ar waith yn fewnol wrth adolygu/cymeradwyo gosod Seilwaith Digidol, a chynyddu gwybodaeth/ymwybyddiaeth o'r Seilwaith Digidol a'r Rhyngrwyd Pethau (RhP).

# Campysau

Gwyddor bywyd a llesiant

| | |
|---|---|
| £135.8m | Buddsoddiad |
| £15m | Y Fargen Ddinesig |
| £58.6m | Sector Cyhoeddus |
| £62.2m | Sector Preifat |

Gan gyflwyno dwy fenter ategol ar Gampws Singleton ym Mhrifysgol Abertawe ac Ysbyty Treforys, yn ogystal â rhwydwaith o arbenigwyr blaenllaw o fewn y diwydiant, bydd y prosiect hwn yn ychwanegu gwerth at y sectorau gwyddor bywyd, iechyd a chwaraeon rhanbarthol.

Bydd cyfleusterau ymchwil a datblygu uwch yn cael eu creu. Bydd cydweithredu rhwng ymchwilwyr academaidd, diwydiant a'r GIG yn gosod Campysau ar flaen y gad o ran technolegau newydd i wella gofal iechyd, gan greu cyfleoedd am gwmnïau gwyddor bywyd a thechnoleg chwaraeon newydd a chreu swyddi sy'n gofyn am sgiliau lefel uchel i bobl yn y rhanbarth.



## Gweithgarwch allweddol ar gyfer 24/25:

- Gwaith paratoadol ar y safle a phrif gontractwyr wedi'u dewis ar gyfer Lôn Sgeti, ILS Singleton.
- Cyflwyno cynllun ar gyfer llwybr mynediad i'r safle 55 erw yn Ysbyty Treforys, a gynigir fel rhan o Gam 2 y prosiect.
- Dylunio a thendro'r Ganolfan Reoli yn Ysbyty Treforys.

## Mantrision hyd yma

**£150m**
Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

**1,120**
Swyddi a Grewyd

**2,000m²** o Ofod Ymchwil ac Arloesi Technoleg Chwaraeon a Thechnoleg Feddygol

Canolfan **700m²** ar gyfer Cydweithrediad Masnachol ac Academaidd

**300+**
o gwmnïau clwstwr

**100+** o Gyfleoedd Arloesi a Masnachol

## Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol:

- Cytundeb ar gyfer yr holl gyllid wedi'i lofnodi rhwng y partneriaid - Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Abertawe, Prifysgol Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.
- Prosiect Singleton wedi ymgysylltu'n weithredol â grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys cynghorwyr, grwpiau staff Prifysgol Abertawe, ac aelodau o'r cyhoedd drwy ymgyngoriadau cynhwysfawr â'r cyhoedd i lywio'r dyluniad a chasglu adborth.
- Cychwynnodd proses dendro Cam 1 Singleton drwy Fframwaith Adeiladu Cydweithredol De-ddwyrain a Chanolbarth Cymru i sicrhau prif gontractwr ar gyfer y gwaith adeiladu. Mynegodd saith contractwr ddiddordeb, gan gychwyn trafodaethau cynnar. Aeth y Cais Cynllunio Statudol hefyd yn fyw.
- Drwy gydweithio â Vodafone, llwyddodd Prifysgol Abertawe i sicrhau £1.5m o gyllid ar gyfer Seilwaith Digidol 5G. Bydd y prosiect yn darparu'r cyllid yn llawn er mwyn i 3 myfyriwr.
- Dyrannu £150k yn llwyddiannus o'r rhaglen Sgiliau a Thalentau i gefnogi'r prosiect peilot Chwaraeon Iechyd a Llesiant Sgiliau AGOR.
- Cafodd Asesiad Anghenion Iechyd rhanbarthol ei gydgysylltu gan ARCH, gan gynnwys y Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Bydd campysau'n defnyddio'r Asesiad Anghenion Iechyd yn sail ar gyfer gweithgareddau a fydd o fudd i iechyd a llesiant y boblogaeth ranbarthol.
- Yn y digwyddiad Arddangos Chwaraeon, cymerodd dros 100 o bobl ran mewn trafodaethau ar Brosiect y Campysau a gweithgarwch Chwaraeon y Brifysgol. Helpodd academyddion, y diwydiant, a chyrff llywodraethu chwaraeon i nodi a sicrhau cynnydd trafodaethau i wella partneriaethau presennol, a sefydlu trefniadau newydd i gydweithredu drwy roi enghreifftiau o arfer da ac arddangos uchelgais ar gyfer chwaraeon.
- Cafwyd cynnydd ag uwchgynllun Cam 2 Singleton a Cham 2 chynllun rheoli datblygu Treforys.

## Ffocws Ar...

### Cydweithio

Mae'r Campysau wedi cydweithio â dwy o'r rhaglenni BDdBA rhanbarthol er mwyn llwyddo i sicrhau a throsoli cyllid a chydweithrediadau ychwanegol o'r sector preifat, er mwyn helpu i gyflawni'r prosiect.

Mae £1.5m o Gronfa Arloesi 5G y rhaglen Seilwaith Digidol wedi cael ei ddyfarnu i Brifysgol Abertawe i drawsnewid galluoedd ym maes iechyd, llesiant a gwyddor chwaraeon ar draws safleoedd yn Abertawe. Bydd y gwaith ymchwil arloesol hwn yn cefnogi datblygiadau allweddol o ran dyfeisiau ar gyfer iechyd a fydd yn galluogi monitro amser real o lesiant corfforol a meddyliol, gan helpu i wella safon gyffredinol y gofal yn yr ardal.

Rhagor o wybodaeth https://nniish.uk/en/2023/11/21/swansea-university-to-develop-world-first-research-and-innovation-living-lab/ Cafodd £155,860 o gyllid Sgiliau a Thalentau hefyd ei sicrhau gan Brifysgol Abertawe, a fydd yn helpu'r prosiect Campysau i bontio'r bwlch o ran sgiliau yn y sector chwaraeon, iechyd a llesiant. Gan gydweithio'n agos â busnesau, bydd prosiect peilot yn cael ei sefydlu gan greu amgylchedd cydweithredol ar gyfer dysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb, gyda chyrsiau a digwyddiadau arloesol ar gyfer ystod o sgiliau sector-benodol a arweinir gan y sector.

"Mae uchelgais Prifysgol Abertawe i wthio ffiniau ymchwil ac arloesi tra'n cyfoethogi bywydau cymunedau yn ne-orllewin Cymru wedi creu argraff aruthrol arnon ni. Mae'r cydweithrediad rhwng Prifysgol Abertawe a Vodafone yn darparu amgylchedd i brofi a datblygu cynhyrchion ac atebion arloesol ar draws diwydiannau lluosog, yn enwedig gofal iechyd a pheirianneg, a gallai hynny greu effeithiau ar draws y DU a thu hwnt. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd drwy gynnal gweithdai lluosog, ymweliadau safle a digwyddiadau ymgysylltu. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar am yr hyn sydd i ddod wrth inni barhau i gyfuno arbenigedd academaidd ag arbenigedd o'r diwydiant er mwyn dod â syniadau arloesol a chydgynhyrchu yn fyw"

**Emma Keedwell, Pennaeth Arloesi, Vodafone Busnes DU**

# Yr Egin

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council




Mae Canolfan S4C Yr Egin yn glwstwr digidol a chreadigol wedi'i lleoli yng Nghaerfyrddin. Fe'i harweinir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS). Mae'r adeilad eiconig yn cynnwys awditoriwm, cysylltedd cyflym iawn, swyddfeydd o'r radd flaenaf a chyfleusterau ôl-gynhyrchu ar gyfer gweithgareddau proffesiynol a chymunedol. Y darlledwr Cymraeg S4C yw'r tenant angor ac mae llawer o fusnesau creadigol a digidol blaenllaw wedi'u cydleoli o fewn y ganolfan. Mae'r Egin yn gatalydd ar gyfer clwstwr creadigol i ysbrydoli cydweithio, datblygu talent, a gwella statws y Gymraeg.

Mae'r model cyflawni ar gyfer yr 2il gam ym mhrosiect Yr Egin yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y Brifysgol a'i chynghorwyr.

## Mantrision hyd yma

**£89.5m** Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

**427** Swyddi a Grewyd

**150** o gyfleoedd sgiliau a hyfforddiant wedi'u creu

**167** o gyfleoedd cyflogaeth o fewn y gweithlu adeiladu

Man gwaith **363m²** wedi'i greu

## Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol:

- Dathlodd Cam 1 bum mlynedd ers dechrau gweithrediadau.
- Mae pob rhan o'r adeilad yn llawn o denantiaid, gan gynnwys S4C, Atebol, Carlam, Moilin, Rural Office, Stiwdiobox a Theatr Genedlaethol Cymru.
- Gwerthusiad economaidd a wnaed gan Arad Research sy'n dangos effaith sylweddol Yr Egin ar yr economi.
- Lansio rhwydwaith Gorllewin Cymru Greadigol. Nod y rhwydwaith yw cynrychioli ac ymgysylltu â'r diwydiannau creadigol yn y rhanbarth, sef siroedd Abertawe, Ceredigion, Penfro, Caerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot. Blaenoriaeth gychwynnol Gorllewin Cymru Greadigol yw canolbwyntio ar dwf y sectorau sgrin, cerddoriaeth, digidol ac ymchwil a datblygu.
- Cynhaliwyd noson 'Drws Agored' lle daeth 18 o fusnesau lleol i arddangos y cyfleoedd, y profiadau a'r swyddi sydd ar gael yn y sector creadigol i bobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin.
- Ar restr fer 'Hyrwyddwr Gorau'r Gymraeg yn y Gweithle', yng Ngwobrau Partneriaid Gwerthfawr Gyrfa Cymru.
- Cais llwyddiannus i'r Gronfa Cymunedau Cynaliadwy, sy'n rhan o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a ddosberthir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, ar gyfer y prosiect "TANIO", gyda £178,636 yn cael ei ddyfarnu ar gyfer y prosiect. Clybiau Creadigol a Digidol i blant a phobl ifanc ddatblygu eu sgiliau creadigol mewn cyfres o glybiau arbenigol wythnosol yn ogystal ag ail-lansio Shwmae Sir Gâr, gwasanaeth 'teledu' ar-lein lleol ar gyfer Sir Gaerfyrddin, yw prif elfennau'r prosiect.
- Cynhaliwyd Gŵyl Ffilmiau Antur. Dyma ddigwyddiad arloesol newydd i ddathlu anturwyr a chrewyr cynnwys, ac roedd yn gyfle i'r cyfranogwyr fwynhau dangosiadau ffilm a sgyrsiau ag arbenigwyr o'r diwydiant.
- Mae PCYDDS wedi ymgysylltu ag ymgynghorwyr arbenigol o'r diwydiant i ystyried y model cyflawni mwyaf priodol ar gyfer Cam 2 Yr Egin.

Cyflymu'r Economi

| | |
|---|---|
| **£25.2m** | Buddsoddiad |
| **£5m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£18.7m** | Sector Cyhoeddus |
| **£1.5m** | Sector Preifat |

## Ffocws Ar...

### Dathlu 5 Mlynedd

Ar 26 Hydref 2023, dathlodd Yr Egin 5 mlynedd ers ei sefydlu. Trefnwyd diwrnod o ddathlu gan PCYDDS, a gwahoddwyd rhanddeiliaid, tenantiaid a gwesteion i nodi'r garreg filltir allweddol hon.

Dros y pum mlynedd diwethaf mae'r Egin wedi:

- Datblygu'n lleoliad diwylliannol bywiog i fusnes, ac wedi'i sefydlu ei hun fel hwb creadigol.
- Bod yn gartref i bencadlys S4C, dros 16 o sefydliadau sy'n denantiaid a chwmnïau a gweithwyr llawrydd ychwanegol sy'n manteisio ar y cyfleusterau desg boeth.
- Darparu ar gyfer nifer o ddigwyddiadau, gweithdai, cyfarfodydd, cynadleddau, perfformiadau a dangosiadau gyda thros 12,000 o bobl yn ymgysylltu yn ystod 2022-23.

Yn ôl adroddiad diweddar ar ei heffaith economaidd, mae'r Egin wedi:

- Creu effaith economaidd o £21.6m tuag at economi Cymru (2022-23).
- Creu effaith economaidd o £7.6m tuag at economi Sir Gaerfyrddin (2022-23).
- Cyfanswm o 175 o bobl yn cael eu cyflogi yn Yr Egin (Medi 2023).

"Mae'r Egin yn chwarae rhan annatod yn economi Sir Gaerfyrddin ac o fewn rhwydwaith diwylliannol cyfoethog ein sir a'n gwlad. Ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin, hoffwn ddymuno penblwydd hapus iawn i'r Egin, a phob llwyddiant iddi dros y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt."

**Cyng. Darren Price, Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin**

## Gweithgarwch allweddol ar gyfer 24/25:

- Cynnydd wrth gynllunio am Gam 2.
- Cam 1:
  - Datblygu rhwydwaith Gorllewin Creadigol Cymru ymhellach yn y 5 sir (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Cheredigion) gan gynnwys cyfres o ddigwyddiadau, rhaglen ymgysylltu a hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yn y rhanbarth.
  - Arddangos mwy o ffilmiau Annibynnol, ffilmiau'r Byd, ffilmiau a wnaed yng Nghymru i dyfu'r ddarpariaeth sinema annibynnol sydd ar gael i gynulleidfaoedd yn ein hardal.
  - Parhau i ymgysylltu ag ysgolion a cholegau addysg bellach i ddarparu gweithdai a phrofiadau sy'n cyfoethogi'r Cwricwlwm i Gymru a dealltwriaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael yn y diwydiannau creadigol.
  - Sicrhau bod cymorth busnes a'r cyllid sydd ar gael yn cael eu cyfeirio a'u rhannu â chwmnïau sy'n denantiaid a'r rhwydwaith.
  - Darparu mannau i gynnal digwyddiadau, cynadleddau a chyfarfodydd.



*71/72 Ffordd y Brenin yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru

# Canol Dinas Abertawe ac Ardal Ddigidol y Glannau

Cyngor Abertawe Swansea Council

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop European Regional Development Fund

Cyflymu'r Economi

| | |
|---|---|
| **£176m** | Buddsoddiad |
| **£50m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£86.5m** | Sector Cyhoeddus |
| **£39.7m** | Sector Preifat |

Gyda'r nod o ysgogi datblygiad a thwf economaidd y rhanbarth a'r ddinas, mae'r rhaglen hon yn cynnwys:

1. Datblygiad **Arena Abertawe** yn ardal Cam Un y Bae Copr yng nghanol y ddinas, sydd hefyd yn cynnwys gwesty ac ynddi oddeutu 150 o ystafelloedd bar ar y to.
2. Datblygiad swyddfeydd o'r radd flaenaf yn **71/72 Ffordd y Brenin** sy'n darparu lle ar gyfer 600 o swyddi, amgylcheddau rhannu mannau gwaith a gofod swyddfa i'r sectorau technoleg a digidol arloesol. Bydd yn anelu i gyrraedd carbon sero net pan fydd yn weithredol.
3. Datblygiadau **Matrics Arloesi a Chanolfan Arloesi** wedi'u darparu gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS), i gynnwys busnesau newydd a meithrin entrepreneuriaeth drwy gysylltiadau agos â'r byd academaidd.



## Mantrision hyd yma

**£669.8m** Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

**1,281** Swyddi a Grewyd

**50+** o gyfleoedd a gofod i Raddedigion sy'n Cychwyn Busnes

**8,700+** o Wythnosau Hyfforddi

Cyfleuster **10,684m²** ar gyfer Busnesau â Ffocws Digidol

## Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol:

### Arena a gwesty Abertawe

- Mae dros 185,000 o bobl wedi ymweld ag Arena Abertawe i fwynhau sioeau, gyda deiliadaeth gyfartalog o 87% ar gyfer dros 70 o berfformiadau lle'r oedd angen tocyn. Dyma rai uchafbwyntiau:
  - Digwyddiadau fel Cynhadledd Comics a Gemau Fideo Abertawe, Cynhadledd Economi Werdd gyntaf 4theRegion, Fforwm ATG Tech a dathliad Diwrnod Beaujolais Clwb Busnes Bae Abertawe.
  - 16 o seremonïau graddio gan gynnwys Prifysgol Abertawe a PCYDDS, gyda thua 22,000 yn bresennol.
  - Perfformiadau lle gwerthwyd pob tocyn gan Jack Whitehall, Russell Howard, Hollywood Vampires, Nothing But Thieves, Busted a Rhod Gilbert.
- Cwblhau'r gwaith adeiladu a'r mân waith ffitio a oedd yn weddill.
- Adolygu opsiynau am ddatblygwyr gwesty, a fydd yn parhau i 2024-25.
- Enillodd yr Arena Wobr Dewi-Prys Thomas am bensaernïaeth. Mae'n cydnabod pwysigrwydd dylunio da er mwyn sicrhau ansawdd bywyd, arddangos hunaniaeth ac adfywio Cymru drwy wobrwyo prosiectau rhagorol mewn ystod o feysydd, gan gynnwys pensaernïaeth, tirlun a dylunio, dylunio ardal y cyhoedd a chelf gyhoeddus.

### 71/72 Ffordd Y Brenin

- Gwaith adeiladu gyda Bouygues UK wedi symud ymlaen a seremoni 'Gosod y Copa' wedi'i chynnal i ddathlu cwblhau'r nodwedd uchaf ar yr adeilad saith llawr. Roedd Gweinidog Llywodraeth y DU, James Davies, yn bresennol ynghyd â phartneriaid o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a darpar denantiaid.
- Dechreuwyd gwaith adeiladu a ffitio allan mewnol.
- Seilwaith digidol a chyflenwadau pŵer o fewn yr adeilad wedi'u cynllunio gan arbenigwyr digidol a data.
- Tenant wedi'i sicrhau i'r ail lawr. Cynnydd yn cael ei wneud gyda darpar feddianwyr i weddill y lloriau.
- Savills wedi'u penodi fel Asiantwyr Rheoli ar gyfer yr eiddo.
- Penodi JLL ac Avison Young fel Asiantwyr Gosod a Marchnata ar y cyd, a phenodi Cre8te fel Asiantwyr Brandio.
- Sefydlu taliadau gwasanaeth a chostau landlordiaid.
- Cwblhau dyluniad a chwmpas yr arwyddion allanol yn derfynol.

### Matrics Arloesi

- Digwyddiadau arloesol wedi'u cynnal gan PCYDDS a Kier i ddathlu dechrau'r gwaith adeiladu. Ymhlith y gwesteion yr oedd Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Economi, Vaughan Gething AS ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru Llywodraeth y DU, David TC Davies, Arweinydd Cyngor Abertawe, y Cyng Rob Steward, ynghyd â phartneriaid a darpar denantiaid. Aeth y gwaith adeiladu yn ei flaen.
- Tenantiaid ar ganol negodi contractau ar gyfer tua 70% o'r gofod sydd i'w osod.
- Ymgysylltu'n barhaus â darpar denantiaid ar gyfer y gofod sy'n weddill.

### Canolfan Arloesi

- Trafodaeth barhaus rhwng PCYDDS a Chyngor Abertawe ynghylch newidiadau posibl i'r model cyflawni i gyd-fynd ag amodau presennol y farchnad.

## Gweithgarwch allweddol ar gyfer 24/25:

### Arena a gwesty Abertawe

- Parhau i gynnal amserlen o raglenni gyda thros 200 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Jamie Cullum, Max Boyce, The Cult, Jimmy Carr, Rhod Gilbert a Katherine Ryan.
- Penodi partner i ddatblygu'r gwesty a gweithio tuag at gynllunio a dylunio.

### 71/72 Ffordd Y Brenin

- Yr adeilad wedi'i gwblhau i bob pwrpas, gan gynnwys ffitio allan mewnol gan y landlord.
- Seilwaith digidol a band eang ffeibr llawn wedi'u gosod.
- Gweithredwr fflecs i'w benodi, a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl is-osod y gofod i fusnesau bach ac egin-gwmnïau.
- Llofnodi prydles â thenantiaid yr ail lawr a thrafodaethau ar y gweill â darpar denantiaid ar gyfer y lloriau sy'n weddill.

### Matrics Arloesi

- Yr adeilad wedi'i gwblhau i bob pwrpas ym mis Gorffennaf 2024, a'r tenantiaid wedyn yn symud i mewn, a seremoni agor swyddogol.
- Ffocws o'r newydd ar y model gweithredol ac ar sicrhau buddion.

### Canolfan Arloesi

- Parhau i drafod â phartneriaid ynghylch datblygu model cyflawni sy'n briodol i'r farchnad.



# Pentre Awel

LLANELLI · SIR GAERFYRDDIN · CYMRU
Pentre Awel
LLANELLI · CARMARTHENSHIRE · WALES

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Gwyddor bywyd a llesiant**

| | |
|---|---|
| **£206.5m** | Buddsoddiad |
| **£40m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£58.3m** | Sector Cyhoeddus |
| **£108.2m** | Sector Preifat |

Gan gyfuno ymchwil gwyddor bywyd, cyfleusterau datblygu busnes, gofal iechyd cymunedol, byw â chymorth a chanolfan hamdden a gweithgareddau dŵr o'r radd flaenaf, bydd Pentre Awel yn Llanelli ymhlith y datblygiad cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Bydd cyfleusterau addysg a hyfforddiant wrth galon y prosiect a fydd yn canolbwyntio ar hyfforddi cenhedlaeth nesaf y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.



## Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol:

- Aeth gwaith adeiladu Parth 1 rhagddo a oedd yn cynnwys cwblhau'r gwaith pentyrru, cloddio, castio a phrofi'r prif bwll a hydrotherapi, ffrâm dur, ffurfio maes parcio a chychwyn y gwaith mewnol, gan gynnwys gwaith mecanyddol, trydanol a chodi waliau mewnol.
- Cynhaliwyd Digwyddiad Gosod y Copa lle arddangoswyd y cwmnïau y caffaelwyd ganddynt yn lleol, a gwahoddwyd y cyfryngau, rhanddeiliaid a darpar denantiaid hefyd.
- Aeth rhaglen Budd Cymunedol Bouygues UK yn ei blaen gan gynnal 'Hybiau Cyflogaeth' i ymgysylltu â grwpiau targed (di-waith, economaidd anweithgar, ymadawyr ysgol, NEETs) i hyrwyddo'r cyfleoedd recriwtio a hyfforddi sydd ar gael o fewn y diwydiant adeiladu.
  - Cyhoeddwyd tri Chylchlythyr Cymunedol, a chynnal tair Cymhorthfa i Drigolion a oedd yn gyfle i drigolion gael cwrdd â thîm y prosiect.
  - Wedi noddi 10 o brentisiaid mecanyddol a thrydanol drwy Gynllun Rhannu Prentisiaeth Cyfle.
  - Darparwyd 2,228 o wythnosau person o Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu (gan gynnwys 31 o brentisiaid, 44 o swyddi i newydd-ddyfodiaid a 22 o hyfforddeiaethau), rhyngweithio â 584 o ddisgyblion a chynnal 86 awr o ymgysylltu.
- Cynnal digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr Rhithwir i hyrwyddo cyfleoedd tendro GwerthwchiGymru a thendro ar gyfer is-osod yn y dyfodol.
- Cynllun Cyfathrebu wedi'i gytuno a'i weithredu, gan gynnwys gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus a marchnata rheolaidd.
- Llofnododd Prifysgol Abertawe Gytundeb Prydlesu o fewn Parth 1.
- Cymeradwyo Cynllun Busnes ac Arloesi sy'n nodi'r egwyddorion a'r fethodoleg ar gyfer ymgysylltu â sectorau/busnesau ar y safle.
- Wedi dyfarnu Cronfeydd Ffyniant Gyffredin (CFfG) ar gyfer dau brosiect:
  - £182k ar gyfer Cyflymu Pentre Awel, dan arweiniad Prifysgol Abertawe.
  - £330k ar gyfer Arloesi Pentre Awel, wedi'i ddarparu mewn partneriaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin a Phrifysgol Caerdydd.

## Mantrision hyd yma

**£467m**
Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

**1,853**
Swyddi a Grewyd

Datblygiad
**50,000m²**
ar draws pob un o'r pedwar parth

**12,000m²**
o Ofod ar gyfer Ymchwil Gymunedol, Addysg a Darpariaeth Glinigol

**80** o Fusnesau Gwyddor Bywyd wedi'u Sefydlu / Cefnogi

# Ffocws ar...

### Digwyddiad yn Arddull Dragons' Den

Ar ôl dyrannu £88,750 o gyllid Sgiliau a Thalentau yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer prosiect Sgiliau'r 21ain Ganrif, cynhaliwyd digwyddiad arddull Dragons' Den. Cynhaliwyd prosiect Dysgu yn y Byd Go Iawn, wedi'i ariannu gan CSC, Bouygues UK a'r rhaglen Sgiliau a Thalentau, lle cymerodd disgyblion o 5 ysgol yn Llanelli ran mewn her dylunio wedi'u mentora gan weithwyr proffesiynol. Y nod oedd eu grymuso i ddarganfod gyrfa ym maes adeiladu neu ddylunio. Rhoddwyd brîff i'r ysgolion ddylunio man gwaith cydweithredol, a oedd yn gyson â datblygiadau arloesol, iechyd a llesiant cadarnhaol, a chynaliadwyedd amgylcheddol. Aethant ati wedyn i arddangos eu dyluniad terfynol mewn sesiwn sylw o flaen panel o feirniaid, yn debyg i'r rhaglen Dragons' Den. Aeth rhai ysgolion ati i lunio dogfennau cais ychwanegol i gefnogi eu cyflwyniad, ac i wneud modelau graddfa 3D a fideos hedfan drwodd digidol.

Cyd-enillwyr y brif wobr oedd Ysgol Gatholig Sant Ioan Llwyd ac Ysgol Gyfun y Strade, ac enillodd Ysgol Pen Rhos y wobr am arloesi / cynaliadwyedd.

I ddilyn hyn, ceir rhaglen o brofiad gwaith yn ystod 2024-25.

### Cefnogi'r economi leol

Mae Bouygues UK wedi ymrwymo i ddefnyddio isgontractwyr lleol fel rhan o'i ymrwymiad i gynnig cyfleoedd am gyflogaeth, hyfforddiant a sgiliau i bobl leol a grwpiau tangynrychioledig.

- Cafwyd 9% (£6.5m) o'r gwariant gyda chwmnïau cod post SA.
- Cafwyd 63% (£44.5m) o wariant pellach gyda chwmnïau Cymreig.
- Cafwyd 28% (£20m) o wariant gyda chwmnïau y tu allan i Gymru.

### Gweithgarwch allweddol ar gyfer 24/25:

- Agor Parth 1 a symud Canolfan Hamdden Llanelli i Bentre Awel.
- Caffaeliadau ar gyfer parthau'r presennol a'r dyfodol gan gynnwys cychwyn proses o ddeialog gystadleuol ar gyfer datblygu'r Gwesty Llesiant (Parth 4) a chaffael gweithredwr gwefru cerbydau trydan, diogelwch safle a chyfarpar hamdden (Parth 1).
- Datblygu Cynllun Rheoli a Datblygu Safle Cyffredinol sy'n cynnwys recriwtio i rolau allweddol.
- Blaengynllunio ar gyfer datblygiad Byw â Chymorth i gynnwys y posibilrwydd o gael cartref nyrsio a gwelyau adsefydlu ochr yn ochr â gofal ychwanegol.

"Rwy'n credu bod y prosiect yma'n syniad gwych gan fod pobl ifanc yn cael helpu i ddylunio gofod y gallent fod eisiau gweithio ynddo, ond hefyd, rwy'n credu ei fod wedi dysgu llawer o sgiliau inni."

**Ellie, Dysgwr ar y prosiect**



# Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel (CATCI)

Bydd y rhaglen hon yn darparu wyth prosiect cydgysylltiedig sy'n cefnogi swyddi a thwf yn y sectorau technoleg ac arloesi carbon isel.

1. Mae **Canolfan Dechnoleg y Bae (CDB)** yn adeilad effeithlon o ran ynni sy'n darparu gofod swyddfa a labordy hyblyg i egin-fusnesau ac i dyfu busnesau cynhenid.
2. Bydd **Hwb Pontio Diwydiannol o Garbon De Cymru (SWITCH)** yn gyfleuster sy'n ymchwilio i ddatgarboneiddio diwydiant.
3. Mae'r **Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch (CCGU)** yn darparu cyfleusterau hybrid, unedau cynhyrchu a gofod swyddfa ar y cyd â Chanolfan Ragoriaeth Genedlaethol ar gyfer Sgiliau Sero Net, gan sicrhau cydweithrediad rhwng diwydiant, y byd academaidd a'r llywodraeth.
4. Mae'r **Ganolfan Ragoriaeth Genedlaethol ar gyfer Sgiliau Sero Net** yn adeiladu ar y CCGU presennol i gefnogi'r marchnadoedd llafur lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wrth newid i economi carbon isel drwy fynd i'r afael â bylchau presennol o ran sgiliau.
5. Mae'r **Gronfa Datblygu Eiddo (CDE)** yn cynnwys £4.5m o gyllid bwlch sy'n anelu i annog datblygiad y sector preifat ar Lannau Port Talbot.
6. Datblygu **strategaeth gwefru Cerbydau Allyriadau Isel (LEV)**, gan gynnwys cydgysylltu ac astudiaeth achos gwefru cerbydau trydan ar gyfer y rhanbarth.
7. Bydd **Prosiect Monitro Ansawdd yr Aer (PMAA)** yn profi synwyryddion cost isel amgen i asesu ansawdd yr aer a llygredd.
8. Bydd **Prosiect Ysgogi Hydrogen (PYH)** yn galluogi trosi trydan adnewyddadwy sydd dros ben o Ganolfan Dechnoleg y Bae yn danwydd hydrogen i gerbydau.



Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

## Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol:

### Canolfan Dechnoleg y Bae (CDB)

- Digwyddiad agoriadol swyddogol gydag arddangosfa gan gontractwyr, partneriaid a thenantiaid a thaith o amgylch y Ganolfan Hydrogen.
- Cymerodd 4 o gwmnïau a sefydliadau denantiaeth gan gynyddu'r ddeiliadaeth i 53% o gyfanswm y gofod llawr sydd ar gael i'w rentu. Mae trafodaethau datblygedig yn cael eu cynnal â darpar denantiaid eraill.
- Cafodd yr adeilad ei gynnwys ar restr fer am wobr y Fenter Orau i Weithredu ar y Newid Hinsawdd neu Ddatgarboneiddio gan y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (APSE) yn 2023.
- Cafodd yr adeilad ei gynnwys fel enghraifft o arfer gorau yng nghynhadledd Cymunedau Arloesi'r Economi Gylchol ar Swansea.com.

### Hwb Pontio Diwydiannol o Garbon De Cymru (SWITCH)

- Wedi penodi Morgan Sindall fel y contractwr ar gyfer cyfleuster SWITCH ar Lannau'r Harbwr.
- Dechreuwyd ar ddyluniad cysyniadol cam 2 RIBA a chynnal cyfarfodydd misol i fonitro cynnydd.
- Penawdau'r Telerau a Chytundeb y Brydles yn cael eu datblygu gyda Phrifysgol Abertawe.
- Y diwydiant yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i roi'r newyddion diweddaraf a datblygu ymglymiad.
- Ymgysylltu â'r byd academaidd i sicrhau aliniad â'r ecosystem Addysg Bellach ac Addysg Uwch.
- Wedi dyfarnu £5m o gyllid Cyfrif Cyflymu Effaith Seiliedig ar Le (PBIAA) Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI) SWITCH i Adeiladu Sero Net.

### Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch (CCGU)

- Trafodaethau parhaus â Llywodraeth Cymru ynghylch tir a lleoliad y cyfleuster.
- Deialog barhaus â Diwydiant Cymru a Llywodraeth Cymru i lywio'r model cyflawni a synergedd â buddsoddiadau arloesi eraill.
- Trafodaeth barhaus â'r byd academaidd, diwydiant a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu cwmpas a model cyflawni'r cyfleuster.

### Canolfan Ragoriaeth Genedlaethol ar gyfer Sgiliau Sero Net

- Achos Busnes Amlinellol wedi'i ddatblygu gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan ddyrannu'r £5.3m sy'n weddill o gyllid y Fargen Ddinesig i'r Ganolfan Ragoriaeth.

### Cronfa Datblygu Eiddo (CDE)

- Daeth pum cais i law ar gyfer cylch cyntaf y CDE, a dyfarnwyd cyllid i dri chwmni o blith y rhain. Bydd y ddau gais arall yn cael cyfle i'w hailgyflwyno'u hunain er ystyriaeth yn 2024/25.
- Lansiodd gylch dau y CDE, gan wahodd Mynegiannau o Ddiddordeb am y cyllid. Mae tri ymgeisydd wedi cael gwahoddiad i symud ymlaen i Gam 1.

### Seilwaith Gwefru Cerbydau Allyriadau Isel (LEV)

- Sefydlwyd gweithgorau i ddatblygu astudiaeth achos yn ardaloedd y Cymoedd i archwilio dulliau o wefru cerbydau trydan ar y stryd.
- Archwiliwyd opsiynau hydrogen ar gyfer Fflyd Castell-nedd Port Talbot, hefyd yn gysylltiedig â'r Prosiect Ysgogi Hydrogen.
- Wedi cynnal digwyddiad bord gron 'Road to Zero' GreenFleet Cymru a sioe deithiol CENEX Cymru yn rhan o waith cydgysylltu rhanbarthol y prosiect hwn.

### Prosiect Monitro Ansawdd yr Aer (PMAA)

- Lluniodd Arbenigwyr Amgylcheddol Ricardo adroddiad sicrhau ansawdd drafft ar y rhwydwaith, gydag adroddiad dadansoddi data blwyddyn 1. Mae adolygiad o'r canfyddiadau ar y gweill.
- Gwnaed gwaith cynnal a chadw a sicrhawyd bod unedau synwyryddion newydd ar gael.
- Mae gwaith wedi'i wneud i uwchraddio gorsaf fonitro'r Rhwydwaith Trefol a Gwledig Awtomatig ym Mhort Talbot.

### Prosiect Ysgogi Hydrogen (PYH)

- Gwaith i baratoi seilwaith wedi'i gyflawni cyn prynu a gosod electroleiddydd 100KW sy'n trosi ynni gwyrdd yn y Ganolfan Ymchwil Hydrogen ym Mharc Ynni Baglan.
- Cytundeb cyllido wedi'i lofnodi rhwng Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Phrifysgol De Cymru.
- £4m o gyllid PBIAA y Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddor Ffisegol (EPSRC) wedi'i ddyfarnu i gonsortiwm o brifysgolion gyda'r Ganolfan Hydrogen yn cael ei defnyddio fel canolfan ymchwil allweddol ar gyfer y gweithgaredd.
- Dyfarnu €3.4, o gyllid prosiect H2SHIFT Horizon Ewropeaidd i ddatblygu cyfleusterau profi hydrogen electrolytig.

# Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel (CATCI)

Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar

| | |
|---|---|
| **£64m** | Buddsoddiad |
| **£53m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£5.5m** | Sector Cyhoeddus |
| **£5.5m** | Sector Preifat |



## Ffocws ar...

### Lleoliad - yr ystyriaeth bwysicaf

Mae'r Catapwlt Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel (CGGU) wedi ehangu er mwyn helpu i gyfnerthu galluoedd gweithgynhyrchu de Cymru, drwy feithrin arloesedd, mynd i'r afael â heriau diwydiannol rhanbarthol, ac achub ar gyfleoedd strategol. Mae'r swyddfa ranbarthol newydd wedi'i lleoli ym Mae Baglan yng Nghanolfan Dechnoleg arobryn y BDdBA.

Rhwydwaith sefydledig o saith sefydliad ymchwil a thechnoleg blaenllaw yw'r CGGU. Mae'n cyflogi dros 3,500 o beirianwyr ledled y DU, ac wedi cynorthwyo dros 30,000 o fusnesau i drawsnewid syniadau gwych yn gynnyrch a gwasanaethau gwerthfawr. Busnesau Bach a Chanolig oedd hanner y busnesau a gefnogwyd gan CGGU.

Bydd lleoli CGGU yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cryfhau ac yn adfywio'r ymdeimlad bod diwydiant a gweithgynhyrchu yn rhan bwysig o hunaniaeth Cymru. Bydd yr hwb yn darparu man lle gall diwydiant presennol a newydd fod yn greadigol, lle gellir datblygu a phrofi syniadau arloesol newydd a chynnig dulliau cynhyrchiol a chynaliadwy o weithgynhyrchu.

Bydd CDB ym Mhort Talbot yn helpu i sbarduno gweithgynhyrchu yn ne Cymru yn sgil y canlynol:

- Ei leoliad canolog yng nghraidd gweithgynhyrchu de Cymru gyda chysylltiadau traffordd a rheilffordd defnyddiol.
- Cyfleuster modern wedi'i adeiladu'n bwrpasol sy'n gyson â nod CGGU i yrru tuag at sero net.
- Hyblygrwydd i gydweithio â sefydliadau o bob sector diwydiannol a darparwyr hyfforddiant.
- Agosrwydd at ecosystem ddiwydiannol ac arloesi sefydledig a chynyddol.
- Aliniad strategol rhwng Cyngor Castell-nedd Port Talbot a CGGU.
- Tirlun diwydiannol a phontio i ddur gwyrdd ac ynni'r gwynt môr.
- Gwerth am arian o ran buddsoddiad ac enillion posibl.

### Gweithgarwch allweddol ar gyfer 24/25:

- **CDB:** Parhau i farchnata'r cyfleuster i sicrhau tenantiaid nes bo'r adeilad yn gwbl lawn.
- **SWITCH:** Cyflwyno ymgynghoriad cyn ymgeisio ar gyfer cyfleuster SWITCH.
- **CCGU / Canolfan Ragoriaeth Genedlaethol ar gyfer Sgiliau Sero Net:** Datblygu cwmpas a briff manwl ar gyfer model cyflawni cydweithredol a sgôp ar gyfer cyfleuster sy'n ymgysylltu â diwydiant, y byd academaidd a'r llywodraeth.
- **CDE:** Dechrau cyflawni prosiectau a gymeradwywyd yng Nghylch 1 y CDE Prosiect Ysgogi Hydrogen - prynu a gosod Electroleiddydd, bwrw ymlaen i brynu fflyd hydrogen
- **PMAA:** Adolygu canfyddiadau adroddiadau ansawdd aer
- **Seilwaith Gwefru LEV:** Datblygu astudiaeth achos ar gyfer gwefru ar y stryd yng nghymunedau'r cymoedd.

### Mantrision hyd yma

**£93m** Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

**1,320** Swyddi a Grewyd

Datblygiad **18,500m²** ar draws pob un o'r pedwar parth

Cronfa Datblygu Eiddo gwerth **£10m**

**45** o Fentrau Cyfrannu at Ymchwil gyda Chymorth

**4** patent wedi'u cofrestru ar gyfer cynnyrch


Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

# Ardal Forol Doc Penfro (AFDP)

Bydd AFDP yn sefydlu hwb cynhyrchu, profi a lleoli o safon fyd-eang ym maes ynni a pheirianneg forol, a fydd yn darparu'r cymorth a'r seilwaith sydd eu hangen er mwyn i economi carbon isel Cymru dyfu ymhellach. Bydd y prosiect yn ehangu ar gyfleusterau sefydledig a chronfa sgiliau helaeth y rhanbarth, gan sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd mor effeithlon â phosibl a chynyddu'r cyfleoedd i arloesi, a fydd yn helpu i leihau costau cynhyrchu ynni'r môr.

Gan ganolbwyntio ar dwf y diwydiant cynhyrchu ynni di-garbon, mae'r prosiect yn cynnwys safleoedd profi pwrpasol ar gamau cynnar ac ar raddfa fasnachol, canolfan arloesi CATAPULT, a seilwaith porthladd â ffocws ar ddiwydiant i sicrhau bod datblygwyr yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cost eu technoleg arloesol a'r modd y caiff ei gosod ar draws pedwar prif brosiect:

1. Bydd **Seilwaith Doc Penfro (SDP)** yn ail-lunio seilwaith ffisegol Porthladd Penfro i sicrhau'r arbedion gweithredol mwyaf posibl ar gyfer diwydiant y DU.
2. Bydd **Parth Arddangos Sir Benfro (PASB)** yn galluogi seilwaith ynni adnewyddadwy ar y môr i gataleiddio cyfleoedd ynni'r gwynt ac ynni'r môr arnofiol ar y Môr Celtaidd.
3. Bydd **Ardal Profi Ynni'r Môr (APYM)** yn creu parthau trwyddedig a ganiatawyd ymlaen llaw o fewn Dyfrffordd y Ddaugleddau ar gyfer profi dyfeisiau cydran a graddfa.
4. Bydd y **Ganolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol (CRPYM)** yn cefnogi arloesi gan ddatblygwyr technoleg a'u cadwynau cyflenwi, gan gipio ac ymwreiddio'r datblygiadau arloesol hynny yng Nghymru.



## Cerrig milltir a chyflawniadau allweddol:

### Seilwaith Doc Penfro (SDP)

- Walters Group wedi cwblhau 17,000 metr sgwâr o ofod gosod i lawr, sydd wedi creu ardal gosod i lawr wastad newydd fel bo modd i'r diwydiannau ynni morol a FLOW, a'r gadwyn gyflenwi, symud dyfeisiau, llongau a seilwaith mawr.
- BAM Nuttall wedi cwblhau llithrfa enfawr a phontŵn. Gall y llithrfa newydd lansio a derbyn dyfeisiau a llongau ynni morol mawr. Cafodd malurion a dynnwyd wrth ddymchwel yr hen lithrfeydd ei ailbwrpasu i lenwi'r pwll pren ar y safle.
- Bydd adeiladu pum pontŵn newydd ar gyfer cychod gwaith wrth ymyl yr angorfa fferi bresennol yn darparu angorfa ar gyfer llongau Gweithredu a Chynnal ynni morol/FLOW.
- Cafodd 1,967 metr sgwâr o ofod swyddfeydd a gweithdai newydd eu cwblhau gan R&M Williams ym Mhorthladd Penfro ar draws pedwar Anecs Awyrendy Sunderland. Roedd tenantiaid yn eu lle wrth ei agor.

### Parth Arddangos Sir Benfro (PASB)

- Wedi cyflawni ymrwymiadau cynllun busnes Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop gan gynnwys:
  - Astudiaeth Cysyniad Technegol ar gyfer is-orsaf aml-gyswllt bach sy'n cefnogi'r prosiectau Profi ac Arddangos FLOW.
  - Prosiect 100MW yn PASB, yn dangos arbediad o £90m i ddefnyddwyr o gymharu â chysylltu pob prosiect yn annibynnol.

### Ardal Profi Ynni'r Môr (APYM)

- Profion wedi'u cwblhau yn amrywiaeth o'r safleoedd APYM, gan gynnwys:
  - Dale Roads: Arbrofi gyda llinellau anheddiad a threialu dyluniadau angor newydd.
  - Cei 1: Arbrawf concrit morol carbon isel.
  - Warrior Way: Arddangosiad o Broffiliwr Cerrynt Doppler Acwstig Cydgyfeiriol (CADCP) a Thyrbin Llanw Prifysgol Abertawe wedi'i brofi a'i ddilysu'n llwyddiannus.
  - Dale Roads a Warrior Way: Mapio cynefinoedd benthig.
  - Criterion Jetty: Ymgyrch monitro bwiau tonnau i baratoi am dreialon Dolphyn Hydrogen.
  - Safle prawf Bae Dwyrain Pickard: Defnyddiwyd unedau profi arloesol Exo-engineering i ddiogelu rhag sgwrio yn llwyddiannus.
- Lansio prosiect yn yr ysgolion i annog grwpiau dysgu o Sir Benfro i gyflwyno'u syniadau ar draws tri thestun canolog: arolwg tanddwr, sefydlogrwydd platfformau a chreu cynefinoedd morol.

### Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol (CRPYM)

- Gweithgarwch a gyllidwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi'i gwblhau.
- Cwblhawyd dadansoddiad i ddangos perfformiad CRPYM yn erbyn targedau, a dathlwyd gorgyflawniadau mewn sawl maes gan gynnwys:
  - 41 yn erbyn targed o 30 (137%) o fusnesau wedi'u cefnogi i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r farchnad.
  - 49 yn erbyn targed o 30 (163%) o fusnesau wedi'u cefnogi i gyflwyno cynnyrch sy'n newydd i'r cwmni.
  - 113 o darged o 60 (188%) o bartneriaid yn cydweithredu mewn prosiectau ymchwil.
  - £2,447,000 o darged o £1,710,000 (143%) o fuddsoddiad preifat sy'n cyfateb i gefnogaeth gyhoeddus mewn prosiectau arloesi neu Ymchwil a Datblygu.
- Arian gwaddol wedi'i sicrhau, gan gynnwys grant o £250,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Her y Morlyn Llanw: prosiect FLOMax, a £218k o brosiect Teyrnas Hydrogen Aberdaugleddau.

# Ardal Forol Doc Penfro (AFDP)

Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar

| | |
|---|---|
| **£65.9m** | Buddsoddiad |
| **£28m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£19.3m** | Sector Cyhoeddus |
| **£18.7m** | Sector Preifat |



## Ffocws ar...

### Treialu Tyrbin Llanw yn llwyddiannus

Mae tîm o ymchwilwyr ym Mhrifysgol Abertawe, dan arweiniad Athro Ynni'r Môr, Ian Masters, wedi treialu ac adfer tyrbin llanw yn llwyddiannus. Gosodwyd y tyrbin llanw ar safle Warrior Way APYM yn Noc Penfro, a'i bwrpas yw darparu pŵer adnewyddadwy cost-isel a dibynadwy i gymunedau anghysbell. Yn y cyfamser ceir galw mawr bellach ymhlith datblygwyr tyrbinau llanw a generaduron eraill am y platfform arnofiol a ddefnyddiwyd i osod y tyrbin ac a adeiladwyd gan y Contractwr Morol lleol, Rudders Boatyard. Maen nhw eisiau ei ddefnyddio i brofi eu dyluniadau ar safle Warrior Way.

> "Mae'n fraint gwirioneddol cael profi ynni'r llanw mewn llif llanw realistig. Mae APYM wedi ein galluogi i symud ein hymchwil allan o'r labordy ac i'r byd go iawn. Rydym wedi casglu data gwerthfawr yr ydym yn mynd i'w rhannu â'r gymuned wyddonol, gan ddarparu'r data sydd eu hangen ar gymuned ynni'r llanw i symud ynghynt tuag at hyfywedd masnachol."

**Ian Masters, Athro Ynni'r Môr, Prifysgol Abertawe**

## Gweithgarwch allweddol ar gyfer 24/25:

- **SDP:** Treialon ar gyfer y pontynau cychod gwaith a gweithrediadau masnachol. Agoriad swyddogol Anecsau yr Hangar, y llithrfa, y pontŵn ar safle gosod i lawr. Disgwylir i SDP ddod yn rhan o'r Porthladd Rhydd Celtaidd.
- **PASB:** Celtic Sea Power i gwmpasu, ymgysylltu ac arwain y prosiect cydweithredol i sicrhau £880k o gyllid Launchpad De-orllewin Cymru gan Innovate UK ar gyfer prosiect £1.4m Teyrnas Hydrogen Aberdaugleddau.
- **APYM:** Parhau i ddarparu cyfleuster prawf môr go iawn sydd y cydsyniwyd iddo ymlaen llaw i leihau'r amser, y gost a'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio a masnacheiddio technoleg ynni morol. Y treial hydrogen arnofiol cyntaf o'i fath yn cael ei gynnal yn APYM:
- **CRPYM:** Bydd y Catapwlt Ynni Adnewyddadwy ar y Môr a'r Catapwlt Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel (CGGU) yn ymateb i'r cynllun twf diwydiannol ar gyfer ynni'r gwynt ar y môr, gan ddangos uchelgeisiau i dde Cymru. Bydd y Catapwlt Ynni Adnewyddadwy ar y Môr hefyd yn cefnogi cynnwys gweithgarwch arloesi yn Achos Busnes Llawn y Porthladd Rhydd Celtaidd. Yn disgwyl llofnodi llythyr cynnig grant gwerth £600k o gyllid grant er mwyn rhoi rhwydwaith o hydroffonau ar waith ar draws y Môr Celtaidd.

## Mantrision hyd yma

**£343.3m**
Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

**1,881**
Swyddi a Grewyd

Cyfrannu **1,000MW** at Dargedau Datgarboneiddio

Creu **60,600²** o Seilwaith Ffisegol

# Ffocws Ar...

## Newid gyrfa i fod yn brentis

Stori Luke, Swyddog Prosiect yn Celtic Sea Power Partner cyflawni ym Mhrosiect Ardal Forol Doc Penfro

Ar ôl treulio dros 12 mlynedd o wasanaeth gyda Lluoedd Arfog EF, penderfynodd Luke ei fod am newid gyrfa. Cofrestrodd i astudio am BEng mewn Peirianneg Ynni Adnewyddadwy ym Mhrifysgol Caerwysg, ac yn fuan ar ôl graddio bu'n gweithio fel peiriannydd dylunio i gwmni sy'n gosod PV solar, systemau batri storio ynni a phympiau gwres. Roedd hon yn rôl gyffrous i Luke gan ei fod wedi bod eisiau gweithio yn y sector ynni adnewyddadwy erioed, ac er bod hynny'n hollol wahanol i'w brofiadau blaenorol yn y fyddin, roedd yn gallu addasu a defnyddio ei sgiliau trosglwyddadwy.

Symudodd Luke wedyn i Celtic Sea Power, lle mae'n gweithio fel Swyddog Prosiect, gan helpu i gyflawni rhan o brosiect AFDP BDdBA. Ei brif gyfrifoldeb yw archwilio rôl is-strwythurau concrit sydd eu hangen ar gyfer Ynni'r Gwynt Ar y Môr sy'n arnofio yn y Môr Celtaidd. Mae'n cynnwys ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi leol a datblygu ei sgiliau a'i brofiad o fewn y diwydiant. Mae'r rôl hon wedi rhoi'r cyfle iddo ddysgu sut mae'r diwydiant yn gweithio, ac i ryngweithio ag ystod amrywiol o randdeiliaid ar wahanol lefelau o fewn sefydliadau.



> "Dyw hi byth yn rhy hwyr i newid eich llwybr gyrfa – rwy'n dystiolaeth o hynny. Chwiliwch am rywbeth sydd o ddiddordeb ichi, ac am gyfleoedd i raddedigion. Dechreuwch feddwl yn fuan yn eich lleoliad am y math o swydd yr hoffech ei chael a gwneud ceisiadau'n fuan am gynlluniau i raddedigion. Byddwn i hefyd yn argymell cysylltu â'r diwydiant i sefydlu'r heriau presennol a seilio traethawd hir neu brosiect ar yr heriau hyn i'ch helpu i gael swydd."



## Dathlu merched yn y byd adeiladu

Claire Lawrence, Rheolwr Prosiect ym Mhorthladd Aberdaugleddau Partner cyflawni ym Mhrosiect Ardal Forol Doc Penfro

Ar ôl astudio cymwysterau Safon Uwch, ymunodd Claire â Phorthladd Aberdaugleddau fel prentis yn adran Ystadau Porthladd Aberdaugleddau, gan ofalu am bortffolio eiddo'r busnes. Ar ôl cwblhau prentisiaeth lwyddiannus, cynigiwyd swydd amser llawn iddi yn y Porthladd. Ar ôl hynny cwblhaodd Claire radd sylfaen wedi'i chyllido drwy waith mewn Rheoli Adeiladu yng Ngholeg Sir Benfro. Cwblhaodd y radd sylfaen gan weithio amser llawn, a llwyddo gyda rhagoriaeth. Ar ôl hynny, cwblhaodd BSc mewn Rheoli Adeiladu ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, lle enillodd Radd Dosbarth Cyntaf.

Mae Claire wedi symud ymlaen i gynorthwyo ac arwain rhai o brosiectau uchaf eu proffil y Porthladd, gan gynnwys Gwesty Tŷ Milford ar Lannau Aberdaugleddau ac, yn fwy diweddar, Gwaith Adnewyddu Anecsau'r Hangar, pontynau cychod gwaith a llithrfa yn rhan o brosiect Ardal Forol Doc Penfro.

**Mae 66% o fenywod ifanc eisoes yn gweithio yn y diwydiant adeiladu, neu wedi ystyried gwneud hynny.**

Mae Claire hefyd yn rhan o banel SPARC Coleg Sir Benfro, a ariennir drwy raglen Sgiliau a Thalentau'r Fargen Ddinesig, a sefydlwyd i rymuso cynnydd merched a hyrwyddo amrywiaeth ryweddol yn y diwydiannau Ynni Cynaliadwy, Ynni Adnewyddadwy ac Adeiladu (SPARC).

> "I mi mae'r Porthladd yn lle gwych i weithio, ac rwyf wedi mwynhau gweithio ar brosiect AFDP yn ofnadwy, yn gwella seilwaith y Porthladd. Does yr un diwrnod yr un peth â'r llall, ac mae fy rôl yn un heriol a chyffrous.
>
> Yr ymdeimlad yna o gyflawniad wrth ichi weld ardal nad oedd yn cael ei defnyddio o'r blaen yn cael ei thrawsnewid yn llwyr i fod yn ased ymarferol i'n cymuned a'n rhanddeiliaid. Fel person cymdeithasol, mae'r cyfle i weithio gydag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol, cyflenwyr, rhanddeiliaid ac o fewn eich cymuned eich hun yn rhoi boddhad aruthrol."

# Ffocws ar... Adeiladu Cynaliadwy a Budd i'r Gymuned

## Pentre Awel

Mae lleihau carbon, cynaliadwyedd, bioamrywiaeth a'r amgylchedd yn greiddiol i'r gwaith o adeiladu Pentre Awel. Mae Bouygues UK:

**Yn defnyddio deunyddiau wedi'u creu o gynnwys wedi'i ailgylchu:**

- 98% o gynnwys wedi'i ailgylchu yn y bar atgyfnerthu a gyflenwyd gan Dyfed Steels
- 80% o gynnwys wedi'i ailgylchu yn y dur strwythurol a gyflenwyd gan Shufflebottom.

Roedd y ffrâm ddur hefyd yn creu cyswllt hanesyddol â'r adeiladau diwydiannol blaenorol ar y safle, gan gynnwys Gwaith Tunplat De Cymru a Melinau (Tunplat) Richard Thomas.

**Y marciau uchaf yn asesiad y Cynllun Adeiladwyr Ystyriol:**

- Cyfanswm sgôr o 45/45 ar draws yr holl feini prawf archwilio.
- 15/15 am Barch tuag at y Gymuned, Gofal am yr Amgylchedd a Gwerthfawrogi ein Gweithlu.

**Trydan a thanwydd cynaliadwy:**

- Mae gan bob swyddfa a chaban ar y safle, a'r system TCC, baneli solar. Pan na fydd golau'r haul yn eu pweru, maent yn defnyddio generadur sy'n rhedeg ar olew llysiau hydrodrin (HVO).
- Mae peiriannau a cherbydau wedi'u trosi'n llwyr i danwydd HVO, drwy'r contractwr Alan Griffiths. Er ei fod yn ddrutach na diesel gwyn, gall greu gostyngiad o hyd at 90% mewn allyriadau carbon.

**Bioamrywiaeth ac ystyriaeth o'r amgylchedd:**

- Erbyn i'r safle gael ei gwblhau, disgwylir y ceir cynnydd o 137% mewn bioamrywiaeth ar y safle, a gostyngiad carbon o 18.4%.
- Mae tîm y prosiect wedi cydweithio'n agos â swyddogion ecoleg a Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau nad yw'r adeilad yn effeithio ar ecoleg a chyrff dŵr.
- Mae mesurau ar waith i ddiogelu ymlusgiaid, llygod y dŵr, dyfrgwn, adar sy'n nythu ac ystlumod.
- Hyrwyddwr Amgylcheddol sy'n sicrhau bod yr holl ffensys o amgylch y safle yn addas i'r diben.
- Mesurau ataliol gan gynnwys lleihau golau yn y nos i osgoi unrhyw effaith ar ystlumod.

"Mae'r hyn yr ydym yn ei wneud i leihau carbon ym Mhentre Awel yn cyd-fynd â'n strategaeth ehangach ar gyfer yr Hinsawdd a'r Amgylchedd. Rydym wedi ymrwymo i wyro 98% o wastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi. Cafodd deunydd a phridd a gloddiwyd o'r safle eu cludo i gyfleuster ailgylchu lleol lle gellir gwahanu, trin ac ailddefnyddio'r deunydd, gan olygu bod llai o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi."

**Simon Hazel,**
**Rheolwr Cynaliadwyedd ac Amgylchedd**
**Bouygues UK**



## 71/72 Ffordd y Brenin

Defnyddiwyd dull economi gylchol yn ystod y broses adeiladu ar gyfer 71/72 Ffordd y Brenin, i leihau gwastraff hyd yr eithaf a lleihau ôl troed carbon yr adeilad.

Daeth deunyddiau ar gyfer esgynfa fynediad dros dro i'r ddau islawr o safle sydd llai na 100 metr i ffwrdd, yn hytrach na chael agregau newydd wedi'u danfon o ddepo'r gadwyn gyflenwi sydd 17 milltir i ffwrdd. Yn sgil hyn, llwyddwyd i sicrhau gostyngiad o 11.2 tunnell i'r ôl troed carbon yn gysylltiedig â thrafnidiaeth Bu gostyngiad hefyd o 5 tunnell yn yr ôl troed carbon drwy ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu yn lle deunyddiau newydd.

Mae nifer o brosiectau cymunedol wedi cael eu cynnal i wneud defnydd o wastraff y gwaith adeiladu. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Cynwysyddion planhigion ar y safle:** Cafodd saer dan hyfforddiant ei gyflogi gan Cyfle am bythefnos o brofiad gwaith ar-safle i greu ystod o gynwysyddion planhigion, meinciau, gwelyau blodau a hysbysfwrdd i'r safle o hen ddarnau o goed. Pan fydd y gwaith ar y safle yn dirwyn i ben, bydd y rhain yn cael eu cyfrannu i'r gymuned leol.

**Gardd Gymunedol Vetch:** Mae grŵp rhandir lleol, ychydig funudau o'r safle, yn ymfalchïo yn ei ddefnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu o ffynonellau lleol i'w cadw o fewn yr economi gylchol. Cyfrannodd Bouygues UK 5m3 o byst ffensys a rheiliau i greu gwelyau llysiau uchel newydd. Bydd y grŵp hefyd yn cynghori tîm y safle ynghylch pa blanhigion a hadau i'w tyfu ar y safle.

**Gweithdy Gwaith Coed Carchar EM:** Mae Swyddogion Carchar wedi casglu tua 5m3 o byst ffensys, rheiliau a phaneli i'w defnyddio yn eu gweithdy gwaith coed, a gynhelir i ailsgilio ac ailhyfforddi carcharorion. Mae'r deunyddiau wedi cael eu defnyddio i greu blychau adar, arwyddion, dodrefn a phropiau i'w hystafell hyfforddi. Mae Bouygues UK hefyd yn gweithio gyda Hwb Cyflogaeth y carchar er mwyn helpu carcharorion i gael gwaith eto ar ôl cael eu rhyddhau.

**Wal o Garedigrwydd:** Rhoddwyd hen ddillad a fyddai fel arfer yn cael eu hanfon i siopau elusen ar fachau ar y hysbysfyrddau ar Stryd Rhydychen, gan ganiatáu i'r cyhoedd gyfrannu siacedi, menig a hetiau i rai mewn mwy o angen.



## Matrics Arloesi

Mae prosiectau cymunedol wedi cael eu cynnal eleni, gan gynnwys:

**Canolfan Galw Heibio Blaenymaes:** Gan weithio gyda phartneriaid o'r gadwyn gyflenwi, mae'r ganolfan galw heibio wedi cael ei hailwampio, gan gynnwys adeiladu sied newydd a gosod esgynfa fynediad i bobl anabl. Mae'r ganolfan yn cael ei rhedeg gan gynrychiolwyr o'r gymuned i ddarparu gwasanaethau fel rhyngrwyd am ddim, galwadau ffôn, banc bwyd, yn ogystal â gweithdai i gefnogi iechyd a llesiant y gymuned ehangach.

**Rhoddion:** Gan weithio gyda Mitie, partner o'r gadwyn gyflenwi, rhoddwyd Bocsys o Ddanteithion Nadolig i'r Elusen Cymorth i Fenywod. Cafodd Puryddion Aer hefyd eu cyfrannu i'r elusen canser plant 'The Megan Mai Foundation'.

**Ymgysylltu ag Addysg:**

- Ymwelodd myfyrwyr o ganolfan addysg a hyfforddiant Llamau yn Abertawe a CITB Coleg Castell-nedd â safle'r Matrics i ddysgu am y prosiect ac am yrfaoedd ym maes adeiladu. Cafodd y disgyblion gyfle i ddefnyddio'r cyfarpar ymgolli, i'w hysbrydoli i ystyried gyrfa ym maes adeiladu.
- Mae sgyrsiau ar y daith tuag at Sero Net hefyd wedi cael eu cyflwyno i Fyfyrwyr PCYDDS.
- Ymwelodd myfyrwyr peirianneg sifil Prifysgol Abertawe â'r safle.

KIER

# Gwersi a Ddysgwyd

Wrth gyflawni'r portffolio ceir cyfleoedd am lawer o brofiadau a rhyngweithiadau gwerthfawr ar draws ystod o brosiectau a phartneriaid y Fargen Ddinesig ar draws y rhanbarth. Mae'r partneriaid yn rhannu'r profiadau hyn i ddatblygu a gwella eu hymagweddau a'u gweithgareddau.

Mae’r Swyddfa Bortffolio wedi cadw log o wersi a ddysgwyd er mwyn rhannu arfer gorau â phartneriaid rhanbarthol ers 2020.

Rhannodd rhanddeiliaid BDdBA 21 o wersi a ddysgwyd ar gyfer 2023-24, gan gynnwys gwersi ym meysydd llywodraethu, adrodd, cydweithio, caffael, cyllid, rhwydweithio, cyfathrebu, adnoddau a buddion.

Mewn cyd-destun ehangach, mae BDdBA hefyd yn rhannu profiadau ac arfer gorau â Bargeinion Dinesig a Thwf eraill yng Nghymru.

Byddwn bob amser yn gofyn am adborth, ac felly'n croesawu eich barn ynghylch sut mae BDdBA yn perfformio ac yn rhyngweithio.
E-bost: **SBCD@sirgar.gov.uk** i rannu eich barn.

Ceir crynodeb o'r prif wersi ac argymhellion isod:

| Y Sefyllfa | Argymhelliad |
|---|---|
| Mae'r cydweithio rhwng prosiectau wedi bod yn gweithio'n dda ac i'w weld yn fuddiol | Parhau i hwyluso cydweithio a gwaith partneriaeth ar draws prosiectau a thimau |
| Oherwydd yr heriau'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth wrth gyflawni prosiectau, mae pethau wedi cymryd yn hirach na'r disgwyl | Sicrhau bod gwaith cynllunio prosiect/gweithgarwch yn rhoi ystyriaeth lawn i'r mewnbwn sydd ei angen gan bartneriaid ac yn caniatáu graddfeydd amser realistig |
| Mae angen cysoni'r ymagweddau at broffilio a gwireddu buddion | Mae prosiectau/y swyddfa rheoli Portffolio yn parhau i fireinio'r trefniadau ar gyfer adrodd am fuddion. Bydd y Fframwaith Gwerthuso yn helpu i sicrhau cysondeb ar draws y Portffolio |
| Gall diweddaru achosion busnes gymryd amser, ond maent wedi bod yn amhrisiadwy i Bortffolio BDdBA | Bydd diweddariadau achos busnes yn parhau i fod yn ofynnol ar gyfer Portffolio BDdBA |
| Mae adolygiadau sicrwydd yn helpu i nodi meysydd ffocws i gefnogi darpariaeth, ac yn darparu cyfradd hyder cyflawni ar gyfer rhanddeiliaid | Prosiectau a rhaglenni i ddefnyddio'r Fframwaith Sicrwydd a chymorth y swyddfa rheoli Portffolio i gynnal adolygiadau rheolaidd |
| Cydnabod cyfarfodydd a chymorth effeithiol gan y swyddfa rheoli Portffolio | Parhau i ymgysylltu a gwella trefniadau i gynnal lefelau effeithiol o gefnogaeth gan y swyddfa rheoli Portffolio |
| Mae diffyg adnoddau o fewn timau prosiect yn amharu ar eu gallu i fonitro ac adrodd yn effeithiol | Sicrhau bod gan dimau prosiect ddigon o adnoddau a'u bod yn trefnu'r llwyth gwaith yn ôl blaenoriaeth |
| Mae digwyddiadau oddi mewn ac oddi allan i'r rhanbarth wedi cynnig cyfleoedd da i rwydweithio a hyrwyddo | Parhau i hyrwyddo’r Fargen Ddinesig trwy ddigwyddiadau rhanbarthol a digwyddiadau eraill, a tharo cydbwysedd priodol rhwng hyrwyddo a rhwydweithio |
| Anghysondebau yn y broses ar gyfer hawliadau chwarterol, ac o ran cywirdeb/amseroldeb datganiadau | Adolygu'r broses hawlio a chadarnhau'r gofynion |
| Mae angen i drefniadau llywodraethu BDdBA fod yn gadarn, ond mor ddiwastraff ag sy'n bosibl | Cyfarfodydd llywodraethu chwarterol wedi'u gweithredu ar gyfer BDdBA. Trefniadau adrodd yn cael eu hadolygu, gan gynnwys cadernid rhagolygon ariannol a chofnodion gwariant |
| Gall ymgynghorwyr allanol fod yn adnodd drud i'w ddefnyddio | Sicrhau gwerth am arian, a tharo cydbwysedd ag arbenigedd rhanbarthol drwy gydweithwyr a sefydliadau partner |

> Mae'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar draws de-orllewin Cymru drwy gyflawni Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'r economi ranbarthol. Blaenoriaeth bennaf Llywodraeth newydd y DU yw tyfu'r economi, ac mae'r Fargen Ddinesig hon yn hanfodol i'n helpu i gyflawni'r genhadaeth honno.
>
> Rwy’n edrych ymlaen i weld prosiectau'n parhau i gael eu cyflawni, a'r effaith gadarnhaol ar y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal.
>
> **Y Fonesig Nia Griffith, Gweinidog Swyddfa Cymru, Llywodraeth y DU yng Nghymru**



# Diweddariad Ariannol

Amcangyfrifir mai sefyllfa fuddsoddi'r Portffolio yw £1,278.27m dros ei gylch oes 15 mlynedd, yn unol â'r crynodeb isod. Cyfanswm buddsoddiad BDdBA o bob ffynhonnell oedd £354.01m, gyda £33.17m ohono yn fuddsoddiad sector preifat ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r hinsawdd economaidd yr ydym yn gweithredu ynddi yn parhau i gyflwyno heriau o ran cyflawni'r Portffolio. Mae sawl ffactor macro-economaidd, gan gynnwys argaeledd adnoddau a recriwtio, prisiau ynni, costau adeiladu, pwysau chwyddiant, a phandemig COVID wedi arwain at lithriant wrth gyflawni a phwysau cynyddol o ran costau dros y pedair blynedd diwethaf.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r holl brosiectau a'r rhaglenni'n mynd rhagddynt i gael eu cyflawni, ac mae'r holl bartneriaid wedi ymrwymo'n llwyr i gyflawni eu cynlluniau ar gyfer BDdBA.

Ym mlwyddyn ariannol 2023-24, buddsoddodd BDdBA £125m mewn cynllunio, caffael, adeiladu a gweithrediadau ar draws y rhan fwyaf o naw o brosiectau a rhaglenni'r Portffolio. Bydd buddsoddiadau mawr pellach drwy gaffael ac adeiladu yn digwydd rhwng 2024-28.

Mae Swyddfa Rheoli Portffolio BDdBA yn mynd ati'n barhaus i fonitro'n agos, lliniaru a datrys risgiau, a chyfathrebu ynghylch cyflawni a phroffiliau ariannol â'r holl randdeiliaid. Mae hyn o gymorth i bennu effaith yr hinsawdd facro-economaidd ar gyflawniad y Portffolio.

Derbyniodd BDdBA ddyfarniad cyllid pellach yn 2023-24 oddi wrth Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan dynnu i lawr y chweched swm blynyddol o gyllid ar gyfer y Fargen Ddinesig. Mae hyn wedi codi cyfanswm yr arian sydd wedi'i dynnu i lawr i £142.6m ers cychwyn y Portffolio. Roedd y cyllid diweddaraf a dynnwyd i lawr ar gyfer y Fargen Ddinesig yn cynnwys grant gan Lywodraeth y DU a ddyfernir bellach dros gyfnod o ddeng mlynedd, yn hytrach na'r cyfnod gwreiddiol o bymtheng mlynedd.



## Proffil Rhagolygon Buddsoddi Blynyddol

| Cydran Fuddsoddi | Bl 0-4 2017-22 | Bl 5 2022-23 | Bl 6 2023-24 | Bl 7 2024-25 | Bl 8 2025-26 | Bl 9 2026-27 | Bl 10 2027-28 | Bl 11 2028-29 | Bl 12 2029-30 | Bl 13 2030-31 | Bl 14 2031-32 | Bl 15 2032-33 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfalaf / Refeniw** | (£m) | | | | | | | | | | | | |
| Buddsoddiad Cyfalaf | 133.66 | 84.70 | 117.55 | 234.62 | 226.48 | 257.52 | 164.05 | - | - | - | - | - | 1,218.57 |
| Buddsoddiad Refeniw | 6.05 | 4.39 | 7.66 | 13.45 | 13.33 | 11.65 | 0.87 | 0.44 | 0.45 | 0.46 | 0.47 | 0.48 | 59.70 |
| **Cyfanswm** | **139.71** | **89.09** | **125.21** | **248.07** | **239.81** | **269.16** | **164.92** | **0.44** | **0.45** | **0.46** | **0.47** | **0.48** | **1,278.27** |
| **Cyllid** | | | | | | | | | | | | | |
| Buddsoddiad y Fargen Ddinesig | 37.84 | 24.22 | 56.20 | 66.71 | 43.02 | 12.20 | 0.81 | - | - | - | - | - | 241.00 |
| Buddsoddiad y Sector Cyhoeddus | 86.04 | 53.18 | 63.36 | 65.14 | 53.69 | 57.74 | 16.47 | - | - | - | - | - | 395.62 |
| Buddsoddiad y Sector Preifat | 15.83 | 11.69 | 5.64 | 116.22 | 143.11 | 199.22 | 147.64 | 0.44 | 0.45 | 0.46 | 0.47 | 0.48 | 641.66 |
| **Cyfanswm** | **139.71** | **89.09** | **125.21** | **248.07** | **239.81** | **269.16** | **164.92** | **0.44** | **0.45** | **0.46** | **0.47** | **0.48** | **1,278.27** |



# Strwythur Llywodraethu a Tîm y Swyddfa Rheoli Portffolio

> Mae trefniadau monitro ac adrodd cadarn ar waith ar gyfer BDdBA ac maent yn adlewyrchu'r cynnydd da sy'n cael ei wneud gyda'r Portffolio. Cafwyd canlyniadau cadarnhaol o'r adolygiadau sicrwydd ac archwilio, ac mae'r rhanbarth yn parhau i fod â pherthynas waith agos a chynhyrchiol â'r ddwy Lywodraeth. Bydd datrysiadau dylunio ar gyfer sawl prosiect yn cael eu datblygu dros y 12 mis nesaf, a bydd cynllun hefyd yn cael ei ddatblygu i gynnal gwerthusiadau economaidd allweddol i ddangos effaith gweithredu'r prosiectau.

**Jonathan Burnes,**
**Cyfarwyddwr Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe**



Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio (SRhP) yn gyfrifol am gynnal y Portffolio o ddydd i ddydd ac mewn cysylltiad rheolaidd â thimau ac aelodau bwrdd ehangach y Fargen Ddinesig.



**Vacant Position**
Rheolwr y Swyddfa Rheoli Portffolio



**Peter Austin**
Rheolwr Ymgysylltu â Busnesau



**Ian Williams**
Rheolwr Datblygu Portffolio



**Heidi Harries**
Swyddog Cyfathrebu a Marchnata



**Steve Aldred-Jones**
Rheolwr Cyllid


Mae Y Rheolwr Cyllid sy'n gyfrifol i'r Swyddog Adran 151



**Amanda Halfhide**
Uwch-swyddog Cymorth Portffolio



**Sarah Vaughan**
Cynorthwyydd y Swyddfa Portffolio




Cefnogir y BDdBA hefyd gan Swyddog Adran 151 Cyngor Sir Caerfyrddin a Swyddog Monitro Cyngor Abertawe yn rhan o swyddogaethau statudol y Portffolio.

**Chris Moore**
**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Caerfyrddin a Swyddog Adran 151 BDdBA**

Mae Chris yn gyfrifol am weinyddu materion y Cyd-bwyllgor o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 197, ac mae'n gyfrifol yn gyffredinol am weinyddu cyllid y Fargen Ddinesig.

**Debbie Smith**
**Dirprwy Swyddog Monitro, Cyngor Sir Abertawe a Swyddog Monitro BDdBA**

Mae Debbie yn gyfrifol am sicrhau trefniadau llywodraethu da ac am gynnal y safonau moesegol uchaf, gan sicrhau cyfreithlondeb y trefniadau a chydymffurfiaeth â Chytundeb y Cyd-bwyllgor.

### Bwrdd Gweithredu Bargeinion Dinesig a Thwf Cymru

Bwrdd ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am roi sicrwydd a chyngor i'r Cyd-gadeiryddion ynghylch materion strategol a gweithredol, rhyddhau cyllid i'r Portffolio, goruchwylio a monitro prosiectau, a sicrwydd a llywodraethu effeithiol.

### Cyd-bwyllgor (CB)

Cadeirydd, y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd Cyngor Abertawe

Yn cynnwys y pedwar Arweinydd Awdurdod Lleol rhanbarthol, yn ogystal ag uwch gynrychiolwyr o bob un o'r wyth prif sefydliad partner, mae'n dwyn y Bwrdd Rhaglen (Portffolio) a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i gyfrif, ac yn gyfrifol yn gyffredinol am graffu a chymeradwyo.

### Bwrdd Strategaeth Economaidd (BSE)

Cadeirydd, Chris Foxall

Corff cynghori'r sector preifat sy'n gweithredu fel llais busnes. Mae'r BSE yn rhoi cyfarwyddyd strategol ar gyfer y Fargen Ddinesig drwy roi cyngor i'r Cyd-bwyllgor ar faterion sy'n gysylltiedig â'r Ddinas-ranbarth.

### Bwrdd Rhaglen (Portffolio) (BRh)

Cadeirydd, Wendy Walters, Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Sir Caerfyrddin

Yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediadau Bwrdd Rhaglen (Portffolio) y Fargen Ddinesig sy'n derbyn diweddariadau ar gynnydd y Portffolio ac yn adolygu risgiau, materion a newidiadau i'r broses o gyflawni achosion busnes.

### Cyd-bwyllgor Craffu

Cadeirydd Dros Dro, y Cynghorydd Tim Bowen, Aelod Etholedig, Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Mae'r Pwyllgor yn cynghori, herio a chefnogi'r Cyd-bwyllgor ac yn cynnwys tri aelod etholedig o bob un o'r pedwar awdurdod lleol.

# Sicrwydd ac Archwilio

## Adolygiadau Gateway

Mae Portffolio, rhaglenni a phrosiectau BDdBA yn destun Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth, a hwylusir gan Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru. Mae'r adolygiadau yn rhoi sicrwydd trydydd parti bod y portffolio a phrosiectau a rhaglenni cysylltiedig, yn mynd rhagddynt ac yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus ar y cyfan. Mae Portffolio BDdBA wedi cynnal adolygiad strategol pellach ym mis Gorffennaf 2023, ynghyd ag adolygiadau o Lannau Abertawe, Ardal Forol Doc Penfro a Seilwaith Digidol.

Mae amserlen o adolygiadau sydd ar ddod wedi cael ei llunio ar gyfer y 12 mis nesaf. Mae cyfarfodydd rheolaidd o Banel Sicrwydd BDdBA wedi cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn, gan roi trosolwg o'r trefniadau sicrwydd, a rhoi mewnbwn i'r trefniadau hynny, ar draws y Portffolio.

Mae'r tabl isod yn dangos yr adolygiadau diweddaraf a gynhaliwyd ar draws y Portffolio ynghyd â'u sgôr Asesiad Hyder Cyflawni (AHC) ac amcangyfrif o'r dyddiad ar gyfer yr adolygiad sicrwydd nesaf.

| Portffolio/Rhaglen/Prosiect | Cam | Dyddiad Adolygu Diweddaraf | Graddfa AHC | Adolygiad Nesaf a Gynllunnir |
|---|---|---|---|---|
| Portffolio | 0 | Gorff 2023 | | Gorff 2025 |
| Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer | PAR | Tach 2022 | | Medi 2024 |
| Cefnogi Arloesi a Thwf Carbon Isel | PAR (Adolygiad gan Gyfaill Beirniadol) | Mehefin 2020 (Hydref 2020) | | Tach 2024 |
| Pentre Awel | PAR | Medi 2020 | | Hydref 2024 |
| Seilwaith Digidol | 0 | Hydref 2023 | | 2026 |
| Ardal Forol Doc Penfro | PAR | Medi 2023 | | 2026 |
| Yr Egin | 5 | Tach 2021 | | 2025 |
| Ardal Ddigidol a Glannau Abertawe | PAR | Medi 2023 | | 2027 |
| Sgiliau a Thalentau | 0 | Ion 2023 | | 2027 |
| Campysau | PAR | Awst 2021 | | Ion 2025 |

## Dim Argymhellion o Adolygiad Portffolio Gateway 2023

Dychwelodd adolygiad sicrwydd Gateway 2023 ar gyfer y Portffolio drydedd sgôr Ambr/Gwyrdd yn olynol gyda 4 mân argymhelliad, y mae pob un ohonynt wedi'u gweithredu. Roedd yr argymhellion yn trafod cyfathrebu ynghylch bwriad strategol, rheoli buddion, alinio llywodraethu â'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol a chael y budd mwyaf posib o ddibyniaethau a chyfleoedd, yn enwedig mewn perthynas â'r sector preifat.

## Archwilio


Cynhaliodd Cyngor Sir Penfro archwiliad mewnol o BDdBA ar gyfer 2023/24. Cafwyd sgôr Sylweddol (Gwyrdd) o ganlyniad i'r archwiliad, gyda 2 argymhelliad yn gysylltiedig â gwella'r adroddiadau misol/chwarterol ar gyfer prosiectau a rhaglenni, a chyflwyno hawliadau grant yn fwy mynych.

Cynhaliwyd adolygiad Asesu Sicrwydd a Risg gan Archwilio Cymru ar gyfer y cyfnod 2022/23. Canfu'r adolygiad fod trefniadau rheoli portffolio BDdBA yn rhoi mewnwelediad clir i gynnydd y portffolio. Nodwyd un cynnig ar bymtheg i adolygu'r trefniadau presennol yn ffurfiol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag anghenion y dyfodol. Mae cynllun gweithredu wedi cael ei greu i adrodd ar gynnydd bob chwarter drwy drefniadau llywodraethu BDdBA. Mae wyth o'r cynigion ar y gweill ac wyth heb eu gweithredu eto.

# Risgiau'r Portffolio

Mae Risgiau Portffolio BDdBA yn parhau i gael eu monitro'n agos a'u hadrodd bob chwarter, gyda diweddariadau ynghylch eu statws a mesurau lliniaru. Gostyngodd cyfanswm risgiau'r Portffolio o 35 i 25 o fewn y flwyddyn. Nodwyd dwy risg newydd, ac fe gafodd pum risg eu cynnwys yn y categori Coch.

**Sgôr Risg 2023/24** **Sgôr Risg 2022/23**




| Risgiau Coch y Portffolio ar gyfer 2023-24 oedd: | Lliniaru |
|---|---|
| Risg y bydd cost gynyddol adeiladu yn effeithio ar gyllidebau a osodwyd yn Achosion Busnes y Rhaglenni/Prosiectau | Mae Swyddfa Rheoli'r Portffolio yn cydweithio'n agos â'r timau rhaglen/prosiect i nodi'r effaith bosibl. Asesiad Effaith Adeiladu Chwarterol wedi'i ddarparu i'r byrddau llywodraethu. Mae tri cham lliniaru allweddol yn cael eu hadrodd gan brosiectau: i) sicrhau cyllid ychwanegol, ii) edrych eto ar y briff dylunio, iii) cynnal trafodaethau negodi manwl wrth gaffael |
| Diweddariad 2021 Llywodraeth Cymru (LlC) o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 - datblygu a pherygl llifogydd ac erydu arfordirol, a mapiau cynllunio llifogydd cysylltiedig | Flood Map for planning embedded. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro effeithiolrwydd Polisi Cynllunio Cymru a TAN 15 drwy gyfarwyddyd hysbysu a dangosyddion datblygu cynaliadwy. Mae LlC wedi bod yn gweithio gyda CNC i ddeall pa mor gadarn yw'r amddiffynfeydd llifogydd presennol. Mae LlC yn disgwyl rhoi cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet yn fuan gyda fersiwn wedi'i hailddrafftio o TAN 15 |
| Llithriant yn ystod y Flwyddyn - Ar ôl cynnal ymarfer ailbroffilio a sefydlu gwaelodlin ar draws y Portffolio, ceir risg o danwariant yn ystod y flwyddyn | Mae Swyddfa Rheoli'r Portffolio a'r Rheolwr Cyllid yn gweithio gyda Rhaglenni a Phrosiectau i fod yn fwy manwl gywir wrth roi rhagolygon o gynnydd ac adrodd ar wariant. Mae Adroddiadau Monitro Ariannol Chwarterol bellach yn cynnwys naratif ategol ar lithriant. Ni adroddwyd bod unrhyw llithriant yn ystod y flwyddyn yn cael unrhyw effaith ar fuddsoddiad cyffredinol y Portffolio nac ar y buddion na'r cyflawniadau ehangach |
| Llithriant o ran cyflawni rhaglenni/prosiectau yn erbyn cerrig milltir allweddol | Mae buddion lefel portffolio bellach wedi'u rhagweld ar gyfer gweddill cyfnod y Portffolio. Swyddfa Reoli'r Portffolio a'r Rheolwr Cyllid i fonitro cynnydd yn chwarterol drwy Ddatganiadau Ariannol a'r Llif Caffael. Mae Rhaglenni/Prosiectau yn adrodd am lithriant drwy'r Broses Rheoli Newid |
| Y gallu i raglenni/prosiectau gyflawni'r holl allbynnau a'r canlyniadau o fewn yr achos busnes | Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen Monitro a Gwerthuso. Mae templedi gwireddu budd wedi cael eu llenwi ar gyfer Rhaglenni/Prosiectau, i'w cynnwys yn adroddiadau Llywodraethu BDdBA. Mae'r Cyd-bwyllgor wedi cymeradwyo Fframwaith Gwerthuso. Proffiliau Gwerthuso Rhaglen/Prosiect yn cael eu drafftio i'w cyflwyno drwy drefniadau Llywodraethu BDdBA |

# Marchnata a Chyfathrebu

Mae ystod o weithgareddau Marchnata a Chyfathrebu wedi cael eu cynnal dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys:

- Diweddaru Cynllun Cyfathrebu a Marchnata'r Portffolio, gan gynnwys: cynllun gweithredu, protocolau a chanllawiau, a chalendr digwyddiadau
- **184** o gyfeiriadau cadarnhaol yn y wasg leol a chenedlaethol, gan gynnwys teitlau ar-lein ac argraffedig, ar draws yr holl brosiectau a rhaglenni
- **12,746** o argraffiadau ar Facebook, **1,021** a chlicio ar **166** o ddolenni
- **30,479** o argraffiadau ar X, **1,563** o ddilynwyr a chlicio ar **244** o ddolenni
- Ymweliadau gan Weinidogion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru â Phentre Awel, y Matrics Arloesi, 71/71 Ffordd y Brenin ac Ardal Forol Doc Penfro
- Gofod presenoldeb ac arddangos mewn **30** o ddigwyddiadau, gan gynnwys Introbiz, Sioe Fusnes Cymru, Sioe Adeiladu Cymru, 4theRegion, Cynhadledd Ynni'r Môr Cymru a Chynhadledd yr Economi Werdd.
- Presenoldeb mewn **4** o ddigwyddiadau Gyrfa Cymru i gwrdd â myfyrwyr o flwyddyn 10. Roedd **6,000** o ddisgyblion yn bresennol, gan gynrychioli **31** o wahanol ysgolion ledled Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.
- Wedi trefnu **4** Digwyddiad Cwrdd â'r Fargen Ddinesig ar draws y rhanbarth, un ym mhob awdurdod lleol.
- Cynrychiolodd y Cyfarwyddwr Portffolio y rhanbarth yn Nigwyddiad Fforwm Buddsoddi Business Insider Cymru i drafod sut y gall Cymru ddenu buddsoddiad masnachol.
- Wedi diweddaru gwefan y Fargen Ddinesig drwy gynnwys y newyddion diweddaraf a'r diweddaraf am brosiectau.
- Wedi cynnal ymarfer caffael ar gyfer gwefan newydd ac yn ymgymryd â'r gwaith cynllunio cynnar.
- Gweithio mewn partneriaeth â chysylltiadau cyfathrebu allweddol mewn sefydliadau partner ac ym Margeinion Dinesig a Thwf eraill Cymru.
- Datblygwyd Log Cerrig Milltir Allweddol i gynllunio gweithgarwch marchnata.





@SBCityDeal bargenddinesigbaeabertawe.cymru BDBA@sirgar.gov.uk


# Digwyddiadau

Mae digwyddiadau'n chwarae rhan fawr wrth hyrwyddo BDdBA a chefnogi gweithgarwch rhaglenni a phrosiectau.

Mae cymryd rhan mewn digwyddiadau yn rhoi llwyfan i rwydweithio a hyrwyddo cyfleoedd BDdBA ymhlith y rhai sy'n bresennol a hefyd ymhlith arddangoswyr eraill.

Mae bod yn bresennol mewn digwyddiadau wedi arwain at greu cysylltiadau newydd, wedi ein galluogi i feithrin perthnasoedd ac wedi codi ymwybyddiaeth ynghylch gweithgarwch portffolio BDdBA o flaen ystod eang o gynulleidfaoedd.

| Digwyddiad | Dyddiad | Lleoliad |
|---|---|---|
| **UKREiiF** | Mai 2023 | Canol y Ddinas, Leeds |
| **Matrics Arloesi yn Torri Tir Newydd** | Meh 2023 | Y Fforwm, Abertawe |
| **Cynhadledd Porth Hydrogen** | Meh 2023 | Canolfan Gynadledda Ryngwladol, Casnewydd |
| **Agoriad Swyddogol Canolfan Dechnoleg y Bae** | Meh 2023 | Canolfan Dechnoleg y Bae, Port Talbot |
| **Cynhadledd Haf y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol** | Meh 2023 | Stadiwm Abertawe.com, Abertawe |
| **Cynhadledd Haf CEIC** | Gorff 2023 | Stadiwm Caerdydd |
| **Sioe Fusnes Cymru** | Gorff2023 | Parc Y Scarlets, Llanelli |
| **Cwrdd â'r Fargen Ddinesig Sir Benfro** | Gorff2023 | Canolfan Arloesi'r Bont, Doc Penfro |
| **Arddangosfa Chwaraeon Prifysgol Abertawe** | Medi 2023 | Campws y Bae Prifysgol Abertawe, Abertawe |
| **Digwyddiad Gyrfaoedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot** | Hyd 2023 | Neuadd Brangwyn, Abertawe |
| **Sioe Fusnes Cymru** | Hyd 2023 | Stadiwm Abertawe.com, Abertawe |
| **Sioe Adeiladu Cymru** | Hyd 2023 | Stadiwm Abertawe.com, Abertawe |
| **Digwyddiad Gyrfaoedd Sir Gaerfyrddin** | Hyd 2023 | Canolfan Halliwell, Caerfyrddin |
| **Expo Introbiz Gorllewin Cymru** | Hyd 2023 | Neuadd Brangwyn, Abertawe |
| **Digwyddiad Dathlu 5 Mlynedd Yr Egin** | Hyd 2023 | Yr Egin, Carmarthen |
| **Arddangosfa Clwb Busnes SA1** | Tach 2023 | Canolfan Dylan Thomas, Abertawe |
| **Digwyddiad Gyrfaoedd Sir Benfro** | Tach 2023 | Coleg Sir Benfro Hwlffordd |
| **Cynhadledd Werdd 4theRegion** | Tach 2023 | Arena Abertawe, Abertawe |
| **Digwyddiad Cwrdd â'r Fargen Ddinesig Sir Gaerfyrddin** | Tach 2023 | Yr Egin, Caerfyrddin |
| **Digwyddiad Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer Duracell** | Chw 2024 | Gerddi Botaneg Cenedlaethol, Caerfyrddin |
| **Hwb Busnes** | Chw 2024 | Orendy Parc Margam, Port Talbot |
| **Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer** | Chw 2024 | Parc y Scarlets, Llanelli |
| **Fforwm Buddsoddi Cymru Cylchgrawn Insider** | Chw 2024 | Gwesty Parkgate, Caerdydd |
| **Dewiswch eich Dyfodol Sir Gaerfyrddin** | Chw 2024 | Parc y Scarlets, Llanelli |
| **Seremoni Gosod y Copa Pentre Awel** | Chw 2024 | Pentre Awel, Llanelli |
| **Cyfarfod Brecwast AFDP** | Maw 2024 | Tŷ'r Giard, Doc Penfro |
| **Cynhadledd Canol Dinas Abertawe 4theRegion** | Maw 2024 | Arena Abertawe, Abertawe |
| **Digwyddiad Lansio SPARC** | Maw 2024 | Coleg Sir Benfro Hwlffordd |
| **Cynhadledd Flynyddol Ynni Morol Cymru** | Maw 2024 | Arena Abertawe, Abertawe |
| **Digwyddiad Cwrdd â'r Fargen Ddinesig Abertawe** | Maw 2024 | Arena Abertawe, Abertawe |

# Digwyddiadau Cwrdd â'r Fargen Ddinesig

Cynhaliwyd 4 Digwyddiad Cwrdd â'r Fargen Ddinesig yn lleol ar gyfer pob ardal Awdurdod Lleol o fewn Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Cafodd y digwyddiadau eu cynnal ar draws 2023-24 yng Nghanolfan Arloesi'r Bont, Sir Benfro; Yr Egin, Sir Gaerfyrddin; Arena Abertawe, Abertawe; ac Orendy Margam, Castell-nedd Port Talbot.

Nod y digwyddiadau oedd:

- Rhoi mewnwelediadau i'r Portffolio, gan gynnwys y diweddaraf am brosiectau.
- Rhoi cyfleoedd i fusnesau lleol ddysgu, ymgysylltu a rhwydweithio â chyfleoedd y Fargen Ddinesig.
- Rhannu gwybodaeth gan Awdurdodau Lleol a sefydliadau partner sy'n galluogi busnesau i dyfu, gan gynnwys grantiau a chymorth i fusnesau.

Prif uchafbwyntiau o'r digwyddiadau:

**4** Digwyddiad

**31** o Arddangoswyr

**509** o gofrestriadau

**296** yn bresennol,
**58%** o gofrestriadau


**74%** o'r rhai a oedd yn bresennol o'r sector preifat

Anfonodd **20%** o'r rhai a oedd yn bresennol atebion i'r arolwg

Byddai **84%** o'r bobl a holwyd yn dod i ddigwyddiad gan BDdBA yn y dyfodol

Roedd **80%** o'r rhai a oedd yn bresennol o'r farn fod y digwyddiadau'n fuddiol, neu'n fuddiol iawn






"Mae hi wedi bod yn wych cael cyfarfod â thîm y Fargen Ddinesig a'r rhwydwaith ehangach yn y digwyddiadau ymgysylltu hyn. Rwyf wedi meithrin perthnasoedd cryf â Bargen Ddinesig Bae Abertawe oherwydd hyn, ac rwy'n falch o ddweud fy mod wedi gweithio gyda Phrifysgol Abertawe i ddatblygu fideo i hyrwyddo'r cynllun yn sgil cyflwyniad gan y tîm."

**James Owen, Cyfarwyddwr Creadigol, Stori Cymru**

"Mae Digwyddiadau Cwrdd â Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi rhoi cyfleoedd na ellir eu colli i Fusnes Cymru ymgysylltu â busnesau bach a chanolig lleol wyneb yn wyneb a'u gwneud yn ymwybodol o sut i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt i ganfod contractau sector cyhoeddus a sector preifat mawr, gwneud cais amdanynt a'u hennill.

Yn ogystal â hynny, maen nhw'n galluogi Busnes Cymru i amlygu a rhannu'r gwasanaeth a gyllidir yn llawn gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cymorth cyffredinol i fusnesau, a chymorth ar gyfer lleihau carbon, cadwynau cyflenwi, sgiliau, AD a masnach ryngwladol."

**Howard Jacobson, Rheolwr Ymgysylltu'r Gadwyn Gyflenwi, Busnes Cymru**

# Ymgysylltu â Busnesau

> Cynorthwyodd y BSE i ddatblygu cyfle cyffrous gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot. Bydd y Ganolfan Ragoriaeth Genedlaethol ar gyfer Sgiliau Sero Net, sy'n rhan o'r Rhaglen Cefnogi Arloesi a Thwf Carbon Isel, yn ychwanegu at y Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch sydd ar ddod i ddatblygu gweithlu'r genhedlaeth nesaf a fydd yn cefnogi twf busnesau a chyfleoedd newydd am swyddi.
>
> Roedd y BSE hefyd yn brysur yn cefnogi'r Swyddfa Portffolio drwy fod yn bresennol a rhwydweithio mewn cyfres o Ddigwyddiadau Cwrdd â'r Fargen Ddinesig ar draws y rhanbarth. Rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn gynhyrchiol sydd i ddod wrth i'r Portffolio symud ymhellach i'r camau cyflawni a gweithrediadau. Byddwn yn defnyddio ein gwybodaeth arbenigol a'n harbenigedd i gefnogi gweithdai ar bynciau fel Ymgysylltu â Busnesau a Chadwynau Cyflenwi gyda BDdBA, ac yn ehangu ein Bwrdd i gynnwys arbenigedd o flaenoriaethau datblygu economaidd rhanbarthol ehangach, a fydd yn cefnogi'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol.
>
> Cyhoeddodd Amanda Davies, Dirprwy Gadeirydd y BSE y byddai'n ymddeol o Pobl a'r BSE. Ar ran y BSE, hoffwn ddymuno ymddeoliad hapus i Amanda a diolch iddi am ei chyfraniadau amhrisiadwy dros y chwe blynedd diwethaf.
>
> **Chris Foxall, Cadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd (BSE)**

**Cyfraniadau'r sector preifat:**

Mae trosoli cyfraniadau o'r sector preifat i gefnogi cyflawniad rhaglenni a phrosiectau yn parhau i fod ymhlith blaenoriaethau pennaf BDdBA. Hyd yma, mae dros £68.35m o gyfraniadau wedi'u sicrhau o'r sector preifat, ac yn ôl rhagolygon y blynyddoedd nesaf byddwn yn cyrraedd ein targed Portffolio o £600m+.

**Estyn allan at fusnesau:**

Mae arddangos mewn digwyddiadau yn ystod 2023-24 wedi bod o gymorth i hyrwyddo BDdBA i fwy na 1,000 o fusnesau ledled de Cymru.

Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn parhau i adeiladu ar weithgareddau ymgysylltu â busnesau dros y flwyddyn sydd i ddod, gan weithio gyda thimau prosiect a rhaglen i ganfod dulliau newydd o ymgysylltu.

**Effaith cadwyn gyflenwi:**

Mae prosiectau a rhaglenni'n cael cryn effaith ar gadwynau cyflenwi yng nghamau adeiladu a gweithredol y Portffolio BDdBA. Mae llawer o'r effaith hon o fudd i gwmnïau lleol a rhanbarthol, yn uniongyrchol a thrwy gadwynau cyflenwi ledled Cymru. Maen nhw hefyd wedi helpu i adeiladu ar berthnasoedd presennol, a meithrin cyfleoedd newydd i gydweithredu sydd o fudd i'r naill ochr a'r llall er mwyn cyflawni'r Portffolio ar draws de-orllewin Cymru.

Hyd yma, mae Portffolio BDdBA wedi cynhyrchu:

- **250+** o gontractau gwerth dros **£176m**.
- **80** o gontractau wedi'u dyfarnu i fusnesau yn ne-orllewin Cymru, gwerth mwy na **£15m**.
- **95** o gontractau pellach wedi'u dyfarnu i fusnesau yng Nghymru ac iddynt werth dros **£100m**.
- **160** o gyfleoedd prentisiaeth yn gysylltiedig ag adeiladu.

> Mae bod yn bresennol yn nigwyddiadau Bargen Ddinesig Bae Abertawe a chael cymorth gan y Rheolwr Ymgysylltu Busnes wedi cynyddu ein gallu i ymgysylltu â phrosiectau rhanbarthol mawr a chysylltu â rhanddeiliaid hanfodol. Mae hyn wedi helpu i feithrin twf a datblygiad Qualitek Engineering, ac wedi arwain at fod yn rhan o Grŵp Clwstwr Castell-nedd Port Talbot. Rydym wedi'n cysylltu'n well, ac mae gennym fynediad at gymuned o weithwyr proffesiynol a sefydliadau o'r un anian, er mwyn hwyluso rhannu adnoddau, gwybodaeth a chefnogaeth, sy'n hanfodol er mwyn bwrw ymlaen yn llwyddiannus â mentrau graddfa fawr.
>
> **David Johnson, Rheolwr Datblygu Prosiectau, Qualitek Engineering**



# Trosoli cyllid a chydweithio

Mae cael Portffolio rhanbarthol strategol yn darparu'r weledigaeth a'r adnoddau i feithrin cydweithio a denu a throsoli cyllid ychwanegol. Gyda BDdBA yn cael ei gyflawni'n llawn ac yn gwbl weithredol, ceir momentwm cynyddol o weithgarwch i sicrhau cyllid ychwanegol ar draws yr holl brosiectau a rhaglenni.

Mae dod â rhanddeiliaid rhanbarthol a chenedlaethol ynghyd â nod cyffredin wedi cynorthwyo'r rhanbarth i lywio a bwrw ymlaen â mentrau sy'n dyngedfennol i'r rhanbarth, fel Uwchgynllun i ddatblygu Dinas Abertawe, a chreu'r llwybrau a gefnogodd y cais am y Porthladd Rhydd Celtaidd. Isod ceir rhai enghreifftiau o'r mathau o gyllid a phrosiectau cydweithredol y mae Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn bwrw ymlaen â nhw.

### Datblygiadau Canol Dinas Abertawe

Mae Prosiect Glannau Abertawe BDdBA wedi bod yn gatalydd arwyddocaol ar gyfer canol y ddinas a'r cyffiniau. Mae Arena Abertawe a datblygiad 71/72 Ffordd y Brenin wedi helpu i drosoli buddsoddiad sylweddol o'r sector preifat a chyhoeddus, gwerth dros **£1bn** o fewn rhaglen adfywio, gan gynnwys:

- Cwmni adfywio arobryn, Urban Splash, yn arwain portffolio trawsnewid gwerth £750m.
- Hacer Developments sy'n arwain yr 'adeilad byw' yn Iard Picton mewn partneriaeth â phrosiect BioHUB Prifysgol Abertawe a Grŵp Pobl a fydd yn rheoli 50 o fflatiau fforddiadwy.
- Bydd Tramshed Tech yn cynnal gweithle cyffredin yn Theatr y Palas, y mae'r Cyngor yn ei adfywio.
- Loft and Co. sy'n arwain gwaith i drawsnewid Neuadd Albert.
- Kartay Investments sy'n arwain sawl datblygiad, gan gynnwys cynllun Ardal y Dywysoges, a fydd yn cynnwys dros 15,000 troedfedd sgwâr o ofod swyddfa, unedau manwerthu uwchraddol a theras ar y to gyda golygfeydd panoramig dros Fae Abertawe.
- Mae DST Innovations o Ben-y-bont ar Ogwr yn arwain y gwaith datblygu o amgylch porthladd Abertawe, gan gynnwys morlyn llanw, fferm fatris i storio'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchir ar y safle, cyfleuster paneli solar arnofiol, eco-gartrefi wedi'u hangori yn y dŵr a chanolfan ddata ar raddfa enfawr.
- Mae Skyline Enterprises o Seland Newydd yn cynnig buddsoddiad mawr ym Mynydd Cilfái a fydd, yn amodol ar ganiatâd cynllunio, yn arwain at greu cyrchfan hamdden awyr agored o safon fyd-eang.

| Ffynhonnell | Gwerth | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Sgiliau a Thalentau** | | |
| Cyfraniadau'r Sector Preifat a Chyhoeddus | **£1.23m** | Mae 21 o brosiectau peilot wedi'u cymeradwyo hyd yma a chyfraniadau'r sector preifat eisoes wedi'u hymrwymo |
| **Seilwaith Digidol** | | |
| Cyfraniadau'r Sector Preifat | **£48m+** | Wedi'i sicrhau drwy osod seilwaith y mae'r rhanbarth a phartneriaid wedi'i gefnogi a'i hwyluso |
| **Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer** | | |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU | **£0.25m** | Creu dau Dŷ Enghreifftiol Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer mewn partneriaeth â Thai Tarian ac Ysgol Bensaernïaeth Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd |
| Cynllun Ardystio Microgynhyrchu (CAM) | **£0.08m** | Wedi'i gyflwyno ar y cyd â Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot, MOBIE (y Weinyddiaeth Adeiladu, Arloesi ac Addysg) ac Ysgol Cynaliadwyedd Cadwynau Cyflenwi |
| AHRC (Cyngor y Celfyddydau a'r Dyniaethau) Trawsnewid Tai a Chartrefi ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol | **£4.6m** | Creu ecosystem ddylunio aml-bartner a thrawsddisgyblaethol newydd i drawsnewid tai ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan ddefnyddio deunyddiau sy'n seiliedig ar ddeunydd biolegol a heb ei echdynnu, ynghyd a chyflenwad o ynni adnewyddadwy a chyfleuster i'w storio |
| **Cefnogi Arloesi a Thwf Carbon Isel / Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer** | | |
| Buddsoddiad y Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) / Ymchwil ac Arloesi'r DU | **£5m** | Cyfrif Cyflymydd Effaith Seiliedig ar Le 'SWITCH i Adeiladau Sero Net' – dan arweiniad Prifysgol Abertawe, gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot fel partner dinesig, defnyddio adnoddau i oresgyn rhwystrau i fabwysiadu adeiladau sero net |
| **Cefnogi Arloesi a Thwf Carbon Isel** | | |
| Launchpad, Innovate UK ar gyfer prosiectau arloesi a arweinir gan fusnes a chefnogaeth ategol | **£7.5m** | Prosiect partneriaeth rhwng Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Diwydiant Sero Net Cymru. Cryfhau achosion busnes busnesau bach a chanolig arloesol a'r diwydiant mwy |
| Tenant newydd | **TBC** | Denu'r Catapwlt Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel fel tenant i Ganolfan Dechnoleg y Bae |
| Cyllid y Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol - Cyfrif Cyflymu Effaith Seiliedig ar Le | **£4m** | Gwobr lwyddiannus i gonsortiwm o brifysgolion gan ddefnyddio'r Ganolfan Hydrogen fel canolfan ymchwil allweddol ar gyfer y gweithgarwch |
| Cyllid H2SHIFT ar gyfer y prosiect Horizon Ewropeaidd | **€3.4m** | Dan arweiniad SNAM o'r Eidal, cwmni cyfleustodau mwyaf blaenllaw Ewrop ar gyfer nwy naturiol, datblygu rhagor o gyfleusterau profi hydrogen, gan gynnwys datblygu cyfleusterau profi hydrogen electrolytig ym Mhrifysgol De Cymru Baglan |
| **Pentre Awel** | | |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU | **£0.2m** | Cyflymu Pentre Awel, o dan arweiniad Prifysgol Abertawe, yn seiliedig ar y model Cyflymu llwyddiannus, a bydd yn datblygu ecosystem Pentre Awel o gydweithredu rhwng busnes, iechyd, academyddion a'r sector cyhoeddus |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU | **£0.3m** | Mae Parodrwydd am Fusnes Pentre Awel, a gyflwynir mewn partneriaeth rhwng CSC a Phrifysgol Caerdydd, yn cynnwys: Deori busnesau a chlinigol, ymchwil a datblygu cynnyrch, modelau cymdeithasol ac iechyd cymunedol.<br>Mae Rheolwyr Prosiect wedi'u penodi ar gyfer y meysydd arbenigol hyn |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU | **£0.14m** | Nod prosiect Cronfa Ffyniant Gyffredin atodol gan dîm hamdden Actif CSC yw buddsoddi mewn mentrau chwaraeon a ffitrwydd cymunedol, gyda ffocws neilltuol ar ardaloedd o amddifadedd, gan gynnwys Pentre Awel |
| **AFDP** | | |
| Llywodraeth Cymru | **£0.25m** | Arian gwaddol wedi'i sicrhau, gan gynnwys Her y Morlyn Llanw: prosiect FLOMax |
| Cyfraniadau'r Sector Preifat a Chyhoeddus | **£1m+** | Cyfraniadau gwerth ychwanegol a gyflawnwyd gan bartneriaid y prosiect CRPYM, PASB, APYM |
| **Yr Egin** | | |
| Effaith economaidd | **£21.6m** | Effaith economaidd Yr Egin ar economi Cymru yn 2022-23 |
| Effaith economaidd | **£7.6m** | Effaith economaidd Yr Egin ar economi Sir Gaerfyrddin yn 2022-23 |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU | **£0.18m** | Prosiect "TANIO", sy'n darparu Clybiau Creadigol a Digidol i blant a phobl ifanc er mwyn datblygu eu sgiliau creadigol mewn cyfres o glybiau arbenigol wythnosol, gan gynnwys ail-lansio Shwmae Sir Gâr, gwasanaeth 'teledu' ar-lein lleol ar gyfer Sir Gaerfyrddin |
| **Campysau** | | |
| CCAUC Prifysgol Abertawe | **£1.45m** | Cae 3G |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU | **£0.38m** | Cyflymu Pentre Awel |
| Sgiliau a Thalentau BDdBA | **£0.31m** | Sgiliau, Chwaraeon, Iechyd a Llesiant Agor |
| Prifysgol Abertawe | **£0.13m** | Llifoleuadau |
| Swansea Council Prifysgol Abertawe | **£0.12m** | Stand Hoci |
| Prifysgol Abertawe | **£1.2m** | Cyfleusterau Newid Modiwlaidd |
| Prifysgol Abertawe | **£0.04m** | Cyfleusterau gwylwyr ar gaeau hoci |
| Seilwaith Digidol, Swansea University, Vodafone | **£2.6m** | Gwely Prawf Arloesi 5G Bae Abertawe |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU | **£0.29m** | Astudiaeth Dichonoldeb Parc Chwaraeon Bae Abertawe |
| Y Gweilch, Prifysgol Abertawe, Undeb Rygbi Cymru | **£0.1m** | Canolfan Datblygu Chwaraewyr sy'n Ferched (Gorllewin Cymru) |
| Prifysgol Abertawe | **£0.02m** | Ymgynghoriaeth - Mapio Rhanddeiliaid - Ymgysylltu a Chyfathrebu |
| Prifysgol Abertawe | **£0.02m** | Ymgynghoriaeth - Cyfleoedd i Fuddsoddi yn y Dyfodol |
| Prifysgol Abertawe | **£0.05m** | Ymgynghoriaeth - Gwella Gwasanaethau a'r Effaith ar Gleifion |

# Cadwyn Gyflenwi

Mae'r BDdBA yn ymdrechu i fod o fudd i gynifer o fusnesau rhanbarthol â phosibl ar draws llawer o sectorau gwahanol.

## Cadwyn Gyflenwi

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Life Sciences Hub Wales
WILLIAMS SHIPPING
genesis
redkite
openreach
LUSSO
Prefix Gauge Systems
lazenby
BATHGATE
Theatr Genedlaethol Cymru
DRY WALL SYSTEMS
SHS
WiEHAG
OPTIMUM Building with Integrity
CONCEPT
POLICE PASS
Echo Works
PSBA
Taunton Fabrications
VELUX
Rural Office
DL
Urdd
CWC
JOHN WILLIAMS & Co.
STRIDE TREGLOWN
Urban Foresight
Raven Delta
IAN THOMAS Construction Services Ltd
DANTEC DYNAMICS
REES SOUND SYSTEMS LIMITED
mitie
APiC UK Limited
RS AQUA
POWELL
CATAPULT Offshore Renewable Energy
Shell ENERGY
National Botanic Garden of Wales
SSS Engineering Services Ltd
PRICHARD'S
TYLEX LTD
CASS www.cassuk.com
TRYKA
NUCLEAR AMRC
DRAGONLNG
Dudley's Aluminium Ltd
OTIS
shire Integrated Systems Ltd
sauro ARCHITECTURAL DESIGN
FF4W FACE FIT 4 WALES
RYAN LANDSCAPING
AEGIS SECURITY
Coleg Sir Benfro Pembrokeshire College
NPTC
MQM
SAMSUNG
CORESEAL
streetwave
mcw
Joyner Group
WARSASH MARITIME SCHOOL
LLESIANT DELTA WELLBEING
idns
GLANTRE
Archus
SECURUS
WHITEHEAD
M&P GROUP
hydrogensafe.org
EC ITB
GIBBS SURFACING LTD
MULTIVAL
DWE
BUCKINGHAM POOLS
T. ALUN JONES & SON
COREUS
certus
IWC
Floor Furnishings Ltd
F4OR Fit For Offshore Renewables
TPS360 covering all bases
ROTEC
PICK EVERARD
TITAN
FR Solutions Ltd
Prifysgol Abertawe Swansea University
CAFE JAXX
waterscapes
WILLIS SYSTEMS
AUDIENCE SYSTEMS
DENValco
nolan roadmarking
AHR
AMODEO
URBAN
eco environmental bird control
INTEGRATED FENCING
ENVISAGE ENVELOPE SOLUTIONS
J&D Pierce
CHURNGOLD
MACRETE PRECAST FOR INFRASTRUCTURE
REARDON SMITH NAUTICAL TRUST
Lenovo
William Haley Engineering Limited
GRIFFITHS
BLANCO'S HOTEL
SpanWright.co.uk
Swanmac
VAN ELLE
CRAFTSMAN
buffoon
Cardiff University Welsh School of Architecture
KONE
DEUTSCHE WINDGUARD
Dollcast Ltd
BIOSITE
ASSA ABLOY
spiral
Schindler
ETS Cymru Ltd
WESTCOAST SIGNS LTD
Proseal roofing
HR Wallingford Working with water
mma Architectural Systems
armfield Research | Learn | Develop



# I ddarganfod mwy...

**Ymholiadau cyffredinol**
SBCD@sirgar.gov.uk

**Seilwaith Digidol**
digital@swanseabaycitydeal.wales

**Cartref yn Orsafoedd Pŵer**
Oonagh Gavigan – O.Gavigan@npt.gov.uk

**Sgiliau a Thalent**
Sam Cutlan-Dillon – scutlan-dillon@sirgar.gov.uk

**Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau**
Lee Richards – Lee.Richards@abertawe.gov.uk

**Arena Abertawe**
Lisa Mart – LisaMart@theambassador.com

**Yr Egin, Matrics Arloesi a Canolfan Arloesi**
Geraint Flowers – G.Flowers@uwtsd.ac.uk

**Canolfan S4C**
Carys Ifan – Carys.Ifan@uwtsd.ac.uk

**Pentre Awel**
Alex Williams – alexwilliams@carmarthenshire.gov.uk

**Campysau**
Clare Henson – c.m.henson@swansea.ac.uk

**Cefnogi Arloesi a Thwf Carbon Isel**
Lisa Willis – l.willis@npt.gov.uk

**Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol (CRPYM)**
Paul Ellsmore – Paul.Ellsmore@ore.catapult.org.uk

**Ardal Profi Ynni'r Môr (APYM)**
Tom Hill – Tom.Hill@marineenergywales.co.uk

**Parth Arddangos Sir Benfro**
Tim James – tim.james@celticseapower.co.uk

**Porthladd Aberdaugleddau**
Julie John – Julie.John@mhpa.co.uk

Bargen Ddinesig
BAE ABERTAWE
SWANSEA BAY
City Deal

bargenddinesigbaeabertawe.cymru

BDBA@sirgar.gov.uk